Visit Wales
Croeso Cymru

Arweiniad i Gynllun Graddio Sêr LLETY CAMPWS

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cyhoeddwyd gan Croeso Cymru
Tŷ Brunel, 2 Ffordd Fitzalan, Caerdydd CF24 0UY
Ffôn: +44 (0)1443 845500
www.cymru.gov.uk/twristiaeth

Cyflwynir yr wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn yn ddiffuant a gwnaethpwyd pob ymdrech i sicrhau ei bod yn gywir. Ni all Croeso Cymru dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw wall neu gamddehongliad. Mae pob atebolrwydd am golled, siom, esgeuluster neu unrhyw niwed arall a achoswyd drwy ddibynnu ar yr wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn wedi ei eithrio drwy hyn.

© Croeso Cymru 2010.

Cynnwys

Croeso 3

Manteision cymryd rhan yng nghynlluniau graddio Croeso Cymru 3

Datblygu'r safon a'r diffiniad o Lety Campws 3

Y broses asesu 4

Datganiad Hygyrchedd, Arferion Hygyrchedd a Chynaladwyedd Da 5

Y Safon Ansawdd ar gyfer Llety Campws

1. Rhwymedigaethau Statudol 6
2. Glanweithdra 6
3. Gwasanaeth a Lletygarwch 7
4. Ystafelloedd Gwely 8
5. Toiledau, Ystafelloedd Ymolchi ac Ystafelloedd Cawod 10
6. Prydau Gwesteion 13
7. Mannau Cyhoeddus 13
8. Gofynion Cyffredinol 14
9. Y Gegin (yn achos llety hunanddarpar) 15

Canllawiau Ansawdd Campws

Y Tu Allan 17

Glanweithdra 19

Archebu Lle a Gwybodaeth 20

Ystafelloedd Gwely – Ansawdd a Chyflwr 22

Ystafelloedd Ymolchi / En-suite / Toiledau – Ansawdd a Chyflwr 26

Pob Man Cyhoeddus 31

Ystafell Fwyta neu Fwyty – Ansawdd a Chyflwr 33

Asesiadau Ansawdd Dros Nos 36

Ansawdd Bwyd 37

Croeso i Croeso Cymru
Safonau Sicrhau Ansawdd

Mae Croeso Cymru yn gwybod i sicrwydd bod defnyddwyr yn ystyried graddau sêr fel rhywbeth pwysig wrth ddewis rhywle i aros. Y rheswm am hyn yw eu bod yn arwydd ansawdd cydnabyddedig, sy'n rhoi sicrwydd iddynt fod corff swyddogol wedi ymweld â gwirio safon y llety, cyn iddynt fynd yno.

Er mai'r prif reswm wrth gwrs dros ddarparu llety campws yw rhoi lle i'ch myfyrwyr, pan na fydd y myfyrwyr yn y coleg mae'r ystafelloedd yn gyfle da i chi gael incwm, boed o'r farchnad gynadleddau neu unigolion a theuluoedd.

Trwy ymuno â chynllun graddio Croeso Cymru byddwch yn gallu manteisio ar gyfleoedd hyrwyddo fel:

- Cael eich enw ar wefannau www.visitwales.com a www.visitbritain.com gyda'r cyfle i gysylltu eich gwefan eich un i gofnod eich busnes;
- Cyhoeddiadau ac ymgyrchoedd marchnata Croeso Cymru;
- Bod yn aelod o rwydwaith y Canolfannau Croeso a byddwch hefyd yn derbyn:
- Gohebiaeth reolaidd gan Croeso Cymru (e.e. e-gylchlythyr misol);
- Arwyddion arddangos gyda'ch gradd sêr chi arnynt os ydych am eu cael ac
- Ôl-drafodaeth asesu fanwl ac adroddiad dilynol gan un o'n Haseswyr Ansawdd profiadol.

Cliciwch yma http://new.wales.gov.uk/topics/tourism/grading/benefits/?lang=cy i ddarllen mwy a lawrlwytho llyfryn Manteision Ansawdd

Diffiniad o Lety Campws:

Lle byw pwrpasol i fyfyrwyr sy'n cynnig llety i deuluoedd, unigolion neu grwpiau yn ystod y gwyliau'n bennaf gyda'r opsiwn o osod y llety fel ystafell yn unig, llety hunanddarpar neu lety â gwasanaeth Gwely a Brecwast. Gall cyfleusterau ychwanegol gynnwys mannau i gael bwyd a diod, cyfleusterau chwaraeon a/neu gynadledda. Efallai y bydd y cyfleusterau arbennig hyn wedi'u cynnwys ym mhris y llety ond nid yw hynny'n wir bob tro.

Datblygu'r safon:

Er mwyn i ymwelwyr â Chymru sydd am aros mewn llety campws fod yn sicr bod y llety'n cyrraedd safon benodol, mae Croeso Cymru yn cynnig cynllun asesu ansawdd sy'n arwain at ddyfarnu graddau sêr i'r llety dan sylw.

Er mai dim ond ar adegau penodol o'r flwyddyn y bydd y math hwn o lety ar gael i ymwelwyr, mae Croeso Cymru yn cydnabod gwerth y llety hwn a'r galw amdano. Yn ystod 2009, buom yn gweithio gyda Visit England a chynrychiolwyr y diwydiant i adolygu'r cynllun hwn. Mae hyn yn golygu bod ein cynllun ni a chynllun Visit England yn gyson â'i gilydd.

Er bod Croeso Cymru, a'i ragflaenydd Bwrdd Croeso Cymru wedi bod yn asesu llety campws ers degawd, mae natur newidiol y cynnyrch hwn, a'r mathau amrywiol o lety a chyfleusterau sydd ar gael wedi golygu ein bod wedi gorfod gwneud rhai newidiadau fel rhan o'r broses raddio.

Un maes newydd yn y broses asesu yw ymweliadau asesu ansawdd dros nos. Yr agweddau a asesir yn ystod yr ymweliadau hyn yw:
Lletygarwch a chyfeillgarwch, gwasanaeth / effeithlonrwydd archebion a'r trefniadau cyrraedd a gadael, asesu ansawdd ac amrywiaeth y bwyd yn y gwasanaeth prydau.

Bydd yr asesiadau dros nos yn cael eu cynnal bob tair blynedd er y gallant gael eu cynnal yn amlach mewn ymateb i gwynion gan ddefnyddwyr neu unrhyw fater arall sy'n peri pryder ac sy'n cyfiawnhau arhosiad dros nos arall ym marn Croeso Cymru.

Y broses asesu

Mae yna ddwy elfen i'r broses:

1) Mae'r Asesydd Ansawdd yn gwirio bod y llety yn bodloni isafswm y gofynion mynediad* (cyfleusterau a gwasanaethau). Mae manylion y rhain yn hanner cyntaf y canllaw hwn, yna

2) Mae'r Asesydd Ansawdd yn rhoi sgôr ansawdd o rhwng 1 a 5 i bob adran, a fydd yn arwain at ganran terfynol cyffredinol, a bydd hwn yn penderfynu pa radd Seren y bydd y llety'n ei gael. Mae manylion yr elfen hon yn dechrau ar dudalen 17.

* Mae yna ddau achos lle mae codi i radd uwch yn dibynnu ar ddarparu cyfleusterau sy'n uwch nag isafswm y gofynion mynediad (yn ogystal â chyrraedd y ganran ansawdd berthnasol), sef:

3 Seren	**Gwelyau** - maint • Gofynion i gael 3 Seren ac uwch: • Sengl 190 x 90cm (6'3 x3') • Dwbl 190 x 137cm (6'3 x 4'6) ond • Bydd darpariaeth o welyau maint isafswm yn cyfyngu'r raddfa terfynol i 2 Seren ar y mwyaf. Gweler tudalen 8.
3 Seren	**Ystafelloedd ymolchi/En Suite/Toiledau** • Isafswm y Gofynion Mynediad – O leiaf un ystafell gawod neu faddon gyda sinciau ar gyfer pob 12 gwestai, ond • I ennill gradd 3 seren ac uwch mae'n rhaid cael un ystafell gawod neu faddon gyda sinc ar gyfer pob 6 gwestai. Gweler tudalen 10.

Y meysydd sy'n cael eu hasesu am eu hansawdd:-

Y tu allan
Glanweithdra
Archebu a Gwybodaeth
Ystafelloedd gwely
Ystafelloedd ymolchi/en suite/toiledau
Yr holl fannau cyhoeddus
Ystafell fwyta/Bwyty

A phan fydd asesiadau ansawdd dros nos amserol yn cael eu cynnal bob tair blynedd fel rheol – bydd Lletygarwch a Gwasanaeth ac Ansawdd Bwyd yr holl brydau yn cael eu cynnwys ac yn effeithio ar y radd seren derfynol.

Bydd y sgôr rhifiadol a roddir yn cyfateb i ddisgrifiad lefel ansawdd. Felly, os yw rhywbeth o safon Ardderchog, mae'n cael 5 pwynt. Er mwyn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw ragfarn, mae ein haseswyr yn cael eu hyfforddi'n drwyadl ac maen nhw'n dilyn canllawiau a chyfarwyddiadau penodol. Mae'r gwahanol bwyntiau gwerth yn dynodi lefelau esgynnol o ansawdd fel a ganlyn:

• Safon Ardderchog	– 5 pwynt
• Safon Da Iawn	– 4 pwynt
• Safon Da	– 3 phwynt
• Safon Eithaf Da	– 2 bwynt
• Safon Derbyniol	– 1 pwynt

Y canran ansawdd cyffredinol sydd ei angen ar gyfer pob gradd seren

Gradd	Isafswm %
• 1 Seren	Isafswm o 35%
• 2 Seren	Isafswm o 44%
• 3 Seren	Isafswm o 60%
• 4 Seren	Isafswm o 75%
• 5 Seren	Isafswm o 85%

DATGANIAD HYGYRCHEDD

Beth yw Datganiad Hygyrchedd? Datganiad clir, cywir a gonest o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau y gall ymwelwyr ag anableddau eu disgwyl NAWR, sy'n rhoi'r opsiwn iddynt allu dewis y lleoliad sy'n fwyaf addas i'w ffordd nhw o fyw.

SYLWER: Fel amod derbyn gradd gan Croeso Cymru, mae'n rhaid i bob busnes ddatblygu datganiad hygyrchedd a disgrifio lefelau hygyrchedd eu holl adeiladau. Dylid ei ddiweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau a wnaed dros amser, a dylai fod ar gael i ddarpar ymwelwyr. Mae darparu'r Datganiad Hygyrchedd ar-lein yn syniad da. Am gyngor ar sut i ysgrifennu Datganiad Hygyrchedd ewch i:

http://new.wales.gov.uk/topics/tourism/grading/access/?lang=cy

ARFERION HYGYRCHEDD DA - CYFLWYNIAD

Tra bod y Datganiad Hygyrchedd yn disgrifio beth sydd ar gael ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o fusnesau yn gwybod bod Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar ddarparwyr llety i gael gwared ar rwystrau a gwella hygyrchedd i ymwelwyr lle bo hynny'n rhesymol. Mae llawer o'r adrannau ar agwedd ansawdd yr asesiad yn cynnwys canllawiau i'ch cynorthwyo chi i gyflawni'r amcan hwn. Er y bydd rhai awgrymiadau yn fwy perthnasol i rai darparwyr nag eraill, rydym yn hyderus y byddwch yn llwyddo i gyflawni rhai ohonynt, waeth beth fo maint eich busnes. Gobeithio y bydd ein hawgrymiadau yn rhoi canllawiau ymarferol i chi ar fod yn fwy cynhwysol ond cofiwch nad ydynt yn rhoi sylw i bob manylyn o bell ffordd.

Bydd y canllawiau arfer da yn cael eu cynnwys yn adran fwyaf berthnasol rhan canllawiau ansawdd y llyfr hwn.

ARFERION CYNALIADWYEDD DA - CYFLWYNIAD

Mae mwy a mwy o bobl yn pryderu am ddiogelu a gwarchod ein planed rhag effeithiau niweidiol ein ffordd o fyw modern ar yr amgylchedd naturiol. Rydym am eich gwahodd chi i ystyried (os nad ydych yn gwneud hynny eisoes) sut y gallech gynnwys newidiadau bach i'r ffordd rydych chi'n cynnal eich busnes fel y gallwch ddangos i ymwelwyr eich bod yn mabwysiadu dull rheoli cynaliadwy o fynd i'r afael â materion gwyrdd. Gall mynd ati fel hyn eich helpu i wella profiad eich ymwelwyr a rhoi hwb i'r economi leol hefyd. Gall wneud synnwyr busnes da, trwy leihau eich costau a chynyddu eich elw.

Fel gyda'r cyngor ar hygyrchedd, nid yw'r cyngor hwn yn rhoi sylw i bob manylyn ac os ydych am gael rhagor o arweiniad ar y mater hwn, cysylltwch â gwasanaeth cynghori busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru gan ddefnyddio'r ffurflen ymholiadau yn

https://fs4b.wales.gov.uk/bdotg/action/findcontactdetail?site=230&contactUS=true&type=CONTACT&itemid=1073859844

neu ffonio 03000 6 03000

Pan ddarperir cyngor, bydd yn dilyn y cyngor ar arferion hygyrchedd da yn yr adran briodol.

Dyfodol y cyngor hwn

Er na fydd y cyngor a roddir ar hygyrchedd a chynaliadwyedd yn y llyfr hwn yn effeithio ar y radd ansawdd seren y bydd eich busnes yn ei derbyn ar hyn o bryd, gall y sefyllfa newid yn y dyfodol, ond fe gynhelir ymgynghoriad gyda'r diwydiant cyn newid unrhyw beth.

Y Safon Ansawdd ar gyfer Llety Campws

Bydd y Safon Ansawdd yn defnyddio cynllun graddio sêr un i bump, sy'n adlewyrchu'r ansawdd a'r cyfleusterau a ddarperir gan lety campws. Lle bo arddull ac ansawdd y llety'n amrywio, caiff pob bloc llety ei asesu'n unigol a gallant dderbyn gwahanol radd seren.

1. Isafswm y Gofynion Mynediad

Yr isafswm y gofynion mynediad ar gyfer cymhwysedd yw Un Seren, sy'n cyfuno darpariaeth ac ansawdd cyfleusterau a gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys gosodiadau, ffitiadau, dodrefn, addurniadau ac unrhyw gyfleusterau ychwanegol.

2. Asesu Ansawdd

Mae'r Dangosyddion Ansawdd a ddangosir yn y llyfryn hwn yn dangos disgwyliadau ymwelwyr, ond nid ydynt yn derfynol nac yn hollgynhwysol.

Defnyddir geiriau fel 'derbyniol', 'da', 'da iawn' ac ati i nodi lefelau ansawdd esgynnol, ond maent yn ddiffiniadau eang iawn. Maent yn fwriadol amhenodol, gan gydnabod yr amrywiaeth eang o elfennau ansawdd y gellid eu cynnwys.

1. Rhwymedigaethau Statudol

Isafswm y Gofynion Mynediad

Cyflawni'r rhwymedigaethau statudol lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys:

- Rhagofalon tân
- Arddangos Prisiau
- Hylendid/Diogelwch bwyd
- Trwyddedu
- Iechyd a Diogelwch
- Gwahaniaethu
- Disgrifiadau Masnach
- Diogelu Data
- Deddf Perchnogion Gwestai

Gofynnir i weithredwyr ddarparu tystiolaeth bod ganddynt Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a bod y gofynion uchod yn cael eu cyflawni.

2. Glanweithdra

Isafswm y Gofynion Mynediad

- Mae glanweithdra yn hollbwysig i westeion, felly mae'n rhaid cyflawni a chynnal safon uchel o lanweithdra ledled yr adeilad. Dylid rhoi sylw arbennig i geginau, ystafelloedd ymolchi, ystafelloedd cawod a thoiledau ac eitemau sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â gwesteion, fel dillad gwely, baddonau, cawodydd, sinciau, toiledau, lloriau, seddi, llestri, cyllyll a ffyrc, gwydrau a chyfarpar cegin
- Dylid glanhau pob ystafell wely ar ôl pob arhosiad ac yn wythnosol os bydd pobl yn aros am gyfnod hirach. Hwyrach y bydd llai o wasanaeth ar gael dros y penwythnos, ond dylid cyhoeddi safonau gwasanaeth mewn llyfryn neu roi gwybod i'r darpar ymwelydd adeg archebu lle

3. Gwasanaeth a Lletygarwch

Isafswm y Gofynion Mynediad

Gweithdrefnau Archebu Lle a Phrisiau

Mae'r gofynion canlynol yn berthnasol i wybodaeth a ddarperir ar lafar, mewn llyfrynnau ac ar unrhyw wefan o dan reolaeth y gweithredwr:

- Dylid sicrhau bod gwesteion yn gwybod beth yn union sydd wedi'i gynnwys yn y prisiau am lety, prydau a lluniaeth, gan gynnwys taliadau gwasanaeth, trethi a thaliadau ychwanegol eraill
- Rhoi disgrifiad teg o'r amwynderau, y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliad i bob gwestai a darpar westai, naill ai trwy hysbyseb, llyfryn, gwefan, ar lafar neu drwy unrhyw ddull arall. Dylid rhoi manylion unrhyw bolisïau mewnol, e.e. dim ysmygu, adeg archebu lle
- Dylid darparu gwybodaeth am agosrwydd at drafnidiaeth gyhoeddus a chynnwys cyfarwyddiadau manwl
- Dylid esbonio costau gwasanaethau neu gyfleusterau ychwanegol sydd ar gael, gan gynnwys telerau canslo os oes rhai
- Dylid esbonio a hysbysebu amseroedd cyrraedd a gadael, ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau mynediad ar ôl cyrraedd
- Lle darperir llety mewn blociau nad ydynt yn gysylltiedig â'r prif adeilad, dylid rhoi manylion pellter/amserau cerdded o'r blociau i'r gwasanaethau a chyfleusterau canolog mewn llyfrynnau ac ar wefannau fel y gall gwesteion weld y wybodaeth hon cyn archebu lle

Gwybodaeth i Westeion a Thwristiaid

- Dylai gwybodaeth i dwristiaid fod ar gael yn hawdd ar bob adeg rhesymol. Gall y wybodaeth hon fod ar gael yn yr ystafelloedd gwely neu mewn man canolog, neu yn y ddau fan. Yn ddelfrydol, dylai gynnwys gwybodaeth am yr ardal leol gyfagos
- Dylid sicrhau bod gwybodaeth/Datganiad Mynediad ar gael

Wrth i'r Gwestai Gyrraedd a Threfniadau Mynediad

- Dylai aelodau staff fod ar ddyletswydd yn ystod amseroedd cyrraedd a gadael gwesteion (fel arfer rhwng 2pm ac 11pm a rhwng 7am a 10am) ac yn ystod amseroedd bwyta, os yw prydau'n cael eu darparu
- Dylid darparu gwasanaeth sy'n briodol i leoliad ac arddull y llety a rhoi sylw prydlon i ymholiadau, ceisiadau, archebion, gohebiaeth a chwynion gan westeion
- Dylai gwesteion allu cael gafael ar staff mewn argyfwng. Dylid nodi lleoliad y ffôn talu agosaf yn y dderbynfa pan nad oes aelod staff yn bresennol
- Ar ôl i westeion gofrestru, dylid sicrhau y gallant gael mynediad i'r sefydliad ac i'w hystafelloedd gwely ar unrhyw adeg, oni bai bod cyfyngiadau wedi'u nodi'n flaenorol. (Mae'n dderbyniol cloi'r fynedfa a hwyrach y bydd rhaid i westeion ganu cloch neu gnocio i gael mynediad, neu gellir rhoi allwedd/cerdyn allwedd/cod mynediad iddynt. Dylid rhoi gwybod i westeion am unrhyw gyfyngiadau adeg archebu lle)
- Pan fydd gwesteion yn talu wrth gyrraedd, dylid darparu derbynneb gywir os ydynt yn dymuno cael un
- Dylai pob gwestai gofrestru wrth gyrraedd

Isafswm y Gofynion Mynediad

Wrth i'r Gwestai Adael (os yn talu wrth adael)

- Dylid darparu manylion y taliadau sy'n ddyledus a derbynneb fanwl, yn ôl y gofyn
- Dylai gweithdrefn trin cwynion fod ar waith, a dylai manylion am sut i gwyno fod wrth law

4. Ystafelloedd Gwely

Isafswm y Gofynion Mynediad

Cysur a Rhwyddineb Defnyddio

- Dylid sicrhau bod gan bob ystafell wely ac ystafell ymolchi ddigon o le fel y gall gwesteion symud o gwmpas yn hawdd
- Wrth asesu a yw maint ystafell yn dderbyniol, bydd aseswyr yn ystyried faint o le sydd o amgylch dodrefn a ffitiadau
- Hefyd, er mwyn cyflawni gradd uwch nag Un Seren, bydd angen i ystafelloedd fod yn fwy, gyda mwy o le o amgylch dodrefn a ffitiadau
- Dylid gallu agor pob drôr a drws yn llawn

Gwelyau a Dillad Gwely – Maint ac Ansawdd

Isafswm maint gwely:
Sengl 190cm x 76cm (6'3" x 2'6")
Dwbl 190cm x 122cm (6'3" x 4')
Ni allwch ennill gradd uwch na Dwy Seren os ydych yn darparu gwelyau o'r maint gofynnol yn unig.

- Bydd pob matras yn cynnwys sbringiau neu sbwng neu ddeunydd tebyg o safon, yn fodern ac yn gyfforddus, a chyda gorchuddion matras a/neu isflancedi. (Nid yw matresi plastig neu rwber yn dderbyniol. Dylai pob gwely fod mewn cyflwr da)
- Dylai'r holl ddillad gwely, gan gynnwys gorchuddion duvet, fod yn boly-cotwm/cotwm a chael eu newid o leiaf unwaith yr wythnos ac ar gyfer pob gwestai newydd. Mae angen gwneud hyn hyd yn oed os ydych yn defnyddio cynfas ychwanegol
- Dylai'r holl ddillad gwely fod yn lân ac yn ddigonol, yn unol ag anghenion gwesteion a'r tymor. Dylid darparu o leiaf ddau obennydd i bob person mewn casys gobennydd unigol, a naill ai dwy gynfas, dwy flanced o safon a gorchudd gwely neu un/dwy gynfas a duvet â gradd tog addas gyda gorchudd
- Dylai blancedi a gobenyddion ychwanegol fod ar gael ar gais
- Dylai pob crud fodloni Safonau Prydeinig

Isafswm y Gofynion Mynediad

Dodrefn, Addurniadau a Ffitiadau

- Dylid darparu desg/bwrdd gwisgo neu ddodrefn tebyg
- Dylid darparu drych. Gellir ei osod yn yr ystafell wely neu'r ystafell ymolchi (yn achos ystafelloedd en-suite)
- Dylid darparu cadair neu stôl
- Dylid darparu wardrob neu le i hongian dillad, gyda digon o gambrenni ar gyfer pob unigolyn. Mae alcof yn dderbyniol, ond ni dderbynnir bachau ar waliau neu'r tu ôl i ddrysau
- Dylid sicrhau bod digon o ddroriau neu silffoedd ar gael – o leiaf ddwy silff/drôr
- Dylid darparu llenni, bleinds neu gaeadau anhryloyw o safon dderbyniol ar bob ffenestr, gan gynnwys paneli gwydr ar ddrysau, ffenestri linter a ffenestri to, er mwyn sicrhau preifatrwydd a chysgod rhag y golau
- Lle bo ystafelloedd gwely ar y llawr daear, dylid ystyried darparu preifatrwydd ychwanegol ar ffurf llen net neu fleind

Golau, Gwres ac Awyru

GWRES

- Dylid darparu system wresogi ddigonol yn yr ystafell heb godi tâl ychwanegol

GOLAU

- Dylai fod digon o olau mewn ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi
- Dylid darparu digon o oleuadau ar gyfer maint yr ystafell
- Dylid sicrhau y gellir rheoli'r prif olau y tu mewn i'r ystafell, wrth ymyl drws yr ystafell wely
- Oni bai ei fod yn addurnol, dylid sicrhau bod gan bob bwlb gysgod neu orchudd

AWYRU

- Dylid sicrhau bod o leiaf un ffenestr yn cynnwys gwydr clir i ddarparu golau naturiol ac awyru digonol. Os yw ffenestri wedi'u selio, dylid darparu system aerdymheru

Lloriau

- Dylid darparu carpedi wedi'u gosod yn llawn neu ddeunydd arall o safon dderbyniol e.e. finyl, laminiad pren, estyll wedi'u trin

Isafswm y Gofynion Mynediad

Gwasanaethau a Chyfleusterau Eraill mewn Ystafelloedd Gwely

- Os na ddarperir cyfleusterau gwneud te a choffi yn yr ystafell wely neu ar gais, dylai cyfleusterau gwneud te a choffi fod ar gael mewn man cyhoeddus e.e. peiriannau diodydd. Gellir codi tâl rhesymol
- Lle darperir cyfleusterau yn yr ystafell, dylid sicrhau y gellir defnyddio'r tegell yn ddiogel uwchben lefel y llawr

FFÔN

- Lle darperir ffôn talu ar y safle, dylid nodi ei leoliad yn glir

AMRYWIOL

- Dylid sicrhau bod cyngor argraffedig ar sut i gael cymorth mewn argyfwng yn y nos ar gael ar ffurf rhybudd neu hysbysiad yng ngwybodaeth yr ystafell. Mae'r gofyniad hwn yn ychwanegol i'r hysbysiad diogelwch tân
- Dylid darparu cynhwysydd papur gwastraff (anfflamadwy os caniateir ysmygu)
- Dylid darparu blwch llwch (lle caniateir ysmygu mewn ystafelloedd gwely) neu hysbysebu y polisi dim ysmygu yn glir
- Dylid darparu un cwpan neu wydr yfed ar gyfer pob gwestai yn yr ystafell ymolchi neu'r gegin. Dylai hwn fod yn wydr clir, neu'n gwpan tafladwy wedi'i lapio
- Dylid darparu rheilen tywelion neu gyfleuster tebyg
- Dylid darparu digon o socedi trydan mewn mannau cyfleus fel y gall y gwestai ddefnyddio'r holl gyfarpar trydanol a ddarperir yn ddiogel e.e. yn ymyl drych er mwyn defnyddio sychwr gwallt
- Dylid sicrhau bod haearn smwddio a bwrdd smwddio ar gael ar gais neu ar gael o leoliad canolog (yn amodol ar flaendal y gellir ei ad-dalu os yn briodol)
- Dylid sicrhau bod cyfleusterau golchi dillad ar gael mewn lleoliad canolog, a gellir codi tâl am y cyfleuster hwn

5. Toiledau, Ystafelloedd Ymolchi ac Ystafelloedd Cawod

Isafswm y Gofynion Mynediad

Cyfleusterau Cyffredinol ac En-suite

- Dylid sicrhau bod pob ystafell ymolchi gyhoeddus ac en-suite ar gyfer ysfafelloedd gwely a brecwast â gwasanaeth yn cael eu glanhau bob dydd. (Ar gyfer llety hunanddarpar, dylid eu glanhau rhwng pob arhosiad neu o leiaf unwaith yr wythnos.) Dylid rhoi sylw arbennig i eitemau sydd mewn cysylltiad uniongyrchol â gwesteion, fel tywelion, baddonau, sinciau, toiledau, lloriau, seddi a gwydrau
- Dylid darparu o leiaf un ystafell gawod neu faddon gyda sinciau ar gyfer pob 12 gwestai
- Dylid darparu o leiaf un toiled ar gyfer pob chwe gwestai, ar wahân i'r ystafell gawod neu faddon
- Dylid sicrhau bod sinc yn y toiled ar gyfer ystafelloedd gwely gwesteion heb sinciau
- Dylid darparu llenni, bleinds neu gaeadau anhryloyw o safon dderbyniol ar bob ffenestr, gan gynnwys paneli gwydr ar ddrysau, ffenestri linter a ffenestri to, er mwyn sicrhau preifatrwydd

  DS Er mwyn cyflawni gradd terfynol o Dair Seren neu uwch, dylid darparu un ystafell gawod neu faddon gyda sinc ar gyfer pob chwe gwestai

Isafswm y Gofynion Mynediad

Ystafelloedd Ymolchi En-suite (lle'n briodol) – Gosodiadau a Ffitiadau

Beth yw en-suite?

Mae cyfleuster en-suite yn cynnwys baddon neu gawod, toiled a sinc ac yn gysylltiedig ag ystafell wely benodol. Mae'r toiled mewn ystafell ar wahân sy'n cael ei hawyru. Mae hi'n dderbyniol i'r sinc a'r gawod fod yn yr ystafell wely, cyn belled â bod y toiled mewn ystafell ar ei ben ei hun, o fewn yr ystafell wely. Os lleolir y gawod yn yr ystafell wely, dylid ychwanegu system awyru ychwanegol i wneud iawn am hyn. Dylid rhoi gwybod i'r gwestai adeg archebu os yw'r baddon neu'r gawod yn yr ystafell wely.

Mae ystafelloedd gwely â chawod ynddynt yn annhebygol o gyflawni gradd ansawdd uchel.

DS Mae cawodydd/ystafelloedd ymolchi ar ffurf 'pod' yn dderbyniol ar unrhyw lefel gradd sêr.

- Baddon neu gawod. Os darperir cawod, dylid hefyd ddarparu sgrin neu len oni bai ei bod yn ystafell wlyb
- Sinc a drych gyda golau uwchben neu wrth ymyl. Bydd pa mor dderbyniol yw'r cyfleuster hefyd yn dibynnu ar siâp a lleoliad y tapiau ac ati ac a yw mewn uned 'pod'
- Dysgl sebon neu gyfleuster tebyg
- Toiled â chaead (mae ystafelloedd ymolchi 'pod' yn eithriad gan nad yw toiledau â chaead yn safonol)
- Daliwr papur toiled a phapur toiled
- Golau wedi'i orchuddio
- System awyru ddigonol ar ffurf ffan echdynnu neu ffenestr sy'n agor
- Llenni neu fleinds anhryloyw ar gyfer unrhyw ffenestri clir/anhryloyw y gellir edrych i mewn trwyddynt
- Gwres digonol (gweler isod)*
- Bachyn ar gyfer dillad
- Rheilen tywelion neu gyfleuster tebyg (nid yw rheiddiadur yn dderbyniol, ond gellir defnyddio dolen/bachyn tywel neu resel hongian ar reiddiadur)
- Pwysedd dŵr digonol gyda dŵr poeth ar gael ar bob adeg resymol
- Pwynt rasel drydanol neu addasydd ar gael o fewn cyrraedd i'r drych. Gellir ei leoli yn yr ystafell wely, yr ystafell ymolchi neu mewn man canolog.
- Clo neu follt mewnol

* Lle nad oes waliau/ffenestri allanol, hwyrach y bydd gwres o'r ystafell wely'n ddigonol. Bydd angen gwresogi ystafelloedd en-suite gyda ffenestr allanol. Mae rheilen tywelion sy'n cael ei gwresogi'n dderbyniol.

Isafswm y Gofynion Mynediad

Ystafelloedd Ymolchi Cyhoeddus (lle'n briodol) – Gosodiadau a Ffitiadau

Dylid darparu yr Isafswm y Gofynion Mynediad sy'n berthnasol i ystafelloedd ymolchi en-suite, yn ogystal â'r canlynol:

- Mae angen system wresogi ddigonol ar gyfer pob ystafell ymolchi gyhoeddus, oni bai ei bod yn llai na 5.9 metr sgwâr (20 troedfedd sgwâr). Nid oes angen gwresogi cawodydd
- Mae angen gwresogi os oes ffenestri allanol yna
- Clo neu follt mewnol

DS Nid yw mynediad i doiledau gwesteion neu ystafelloedd baddon/cawod o ystafell wely trwy ardaloedd cyhoeddus e.e. lolfa, ystafell fwyta, yn dderbyniol.

Toiledau Cyhoeddus ar Goridorau Ystafelloedd Gwely – Gosodiadau a Ffitiadau

- Toiled â chaead
- Bin â chaead neu fin agored gyda bagiau hylendid
- Daliwr papur toiled a phapur toiled
- Sinc yn cynnwys dŵr poeth, sebon/sebon hylif a chyfleusterau sychu dwylo
- Golau wedi'i orchuddio
- System awyru ddigonol ar ffurf ffan echdynnu neu ffenestr sy'n agor
- Llenni neu fleinds anhryloyw ar gyfer unrhyw ffenestri clir/anhryloyw y gellir edrych i mewn trwyddynt
- Clo neu follt mewnol

Sinciau mewn Ystafelloedd Gwely

- Rheilen tywelion neu gyfleuster tebyg (nid yw rheiddiadur yn dderbyniol, ond gellir defnyddio dolen/bachyn tywel neu resel hongian ar reiddiadur)
- Dŵr poeth ar gael 24 awr y dydd
- Pwynt rasel drydanol neu addasydd ar gael o fewn cyrraedd i'r drych. Gellir ei leoli yn yr ystafell wely, yr ystafell ymolchi neu mewn man canolog

Tywelion a Deunyddiau Ymolchi

- Tywel llaw a baddon glân i bob unigolyn, a sebon ffres i bob gwestai newydd (sebon hylif yn dderbyniol)
- Mat baddon ar gyfer pob unigolyn

6. Prydau Gwesteion

Isafswm y Gofynion Mynediad

Ystafell Fwyta/Brecwast

Lle bo prydau'n cael eu gweini, dylid sicrhau bod ystafell fwyta/brecwast ar gael.

Brecwast (lle darperir fel rhan o becyn)

- Lle bo brecwast ar gael i westeion, gall fod yn gyfandirol a/neu wedi'i becynnu ymlaen llaw. Os nad oes brecwast wedi'i goginio ar gael neu os yw wedi'i becynnu ymlaen llaw, dylid nodi hyn yn y llyfryn neu roi gwybod i'r gwestai adeg archebu lle
- Dylid nodi'n glir y dewis sydd ar gael a chost eitemau bwyd
- Dylid hysbysebu amseroedd brecwast yn glir, ond gellir gweini prydau i grwpiau ar amser penodol

Cinio a Swper (lle darperir)

- Dylai prif gyrsiau gynnwys bwydydd poeth a dewis llysieuol
- Gellir gweini prydau i grwpiau ar amser penodol ond, i bob gwestai arall, dylai cinio/swper gael ei hysbysebu'n glir a dylid nodi amseroedd agor yr ystafell fwyta

7. Mannau Cyhoeddus

Isafswm y Gofynion Mynediad

Cyffredinol

- Dylid sicrhau bod digon o olau i sicrhau diogelwch a chysur mewn ardaloedd cyhoeddus, gan gynnwys digon o olau ar risiau a phen grisiau yn y nos. Mae switsh is-goch/amserydd yn dderbyniol
- Dylai coridorau a grisiau fod mewn cyflwr da ac yn rhydd o rwystrau
- Dylid sicrhau bod digon o wres mewn mannau cyhoeddus
- Dylid sicrhau bod toiledau cyhoeddus mewn cyflwr da a dylid eu harchwilio'n rheolaidd bob dydd

Toiledau Cyhoeddus

Dylai pob toiled gynnwys:

- System awyru ddigonol
- Toiled â chaead
- Golau wedi'i orchuddio
- Digon o bapur toiled
- Bin hylendid
- Sinc gyda sebon/sebon hylif
- Cyfleusterau sychu dwylo digonol
- Clo neu follt mewnol ar ddrws pob toiled.

8. Gofynion Cyffredinol

Isafswm y Gofynion Mynediad

Diogelwch

- Dylai'r fynedfa gael ei nodi'n glir
- Dylid cynnal safon uchel o ddiogelwch, gan gynnwys gwybodaeth am weithdrefnau argyfwng i'w harddangos mewn ystafelloedd gwely
- Dylid darparu mesurau digonol ar gyfer diogelwch gwesteion a'u heiddo. Dylid sicrhau y gellir cloi drysau ystafelloedd gwely o'r tu mewn a'r tu allan, a dylai fod allwedd ar gael bob amser

Ymddangosiad Allanol

- Dylid cadw adeiladau, gosodiadau, ffitiadau, dodrefn ac addurniadau mewnol ac allanol mewn cyflwr da a glân, a dylent fod yn addas ar gyfer y diben

Tir a Gerddi

- Dylid cadw gerddi a/neu fannau agored sy'n hygyrch i westeion mewn cyflwr da
- Dylid sicrhau bod llwybrau neu goridorau i'r holl fannau mewn cyflwr da, gydag arwyneb da a digon o olau

Parcio (lle'n berthnasol)

- Dylai unrhyw faes parcio a ddarperir gynnwys digon o olau i sicrhau diogelwch gwesteion
- Os na ddarperir maes parcio neu os codir tâl ychwanegol am barcio car, dylid nodi hyn yn y llyfryn/ar y wefan a dylid rhoi gwybod i westeion adeg archebu lle

Blociau Llety

- Lle bo gan sefydliad anecs, caiff y cyfleusterau a ddarperir yn yr anecs eu hystyried yn y rhan berthnasol o'r asesiad e.e. ystafell chwarae gyda mannau cyhoeddus a llety cysgu gydag ystafelloedd gwely

Cyfleusterau Ychwanegol

- Gellir darparu'r cyfleusterau hyn fel rhan o'r pecyn llety. Maent yn ofynion dewisol ond, os cânt eu darparu, ystyrir eu hansawdd, eu cyflwyniad a pha mor hawdd y gellir eu defnyddio wrth asesu'r sgôr ansawdd
- Os oes gan y sefydliad gyfleusterau awyr agored ychwanegol e.e. cwrt tennis, caiff y rhain eu hystyried yn y maes hwn
- Dylid darparu arwyddion i gyfleusterau

9. Y Gegin (yn achos llety hunan-gynhaliol)

Isafswm y Gofynion Mynediad

Cyffredinol

- Dylid sicrhau arwyddion dim ysmygu clir
- Dylid sicrhau bod popty glân sy'n gweithio yn y gegin, gyda ffwrn, gridyll ac o leiaf bedwar cylch berwi y gellir eu defnyddio'r un pryd â'r ffwrn neu'r gridyll
- Dylid darparu meicrodon yn ogystal â phopty
- Dylid sicrhau bod oergell lân sy'n gweithio yn y gegin, gyda blwch gwneud rhew (oni bai y darperir rhewgell hefyd)
- Dylid darparu sinc gyda bwrdd diferu, rhesel sychu llestri, dŵr poeth a dŵr oer i yfed
- Dylid darparu o leiaf un wyneb gweithio hylan
- Dylid darparu cyfleuster ar gyfer berwi dŵr e.e. tegell ac ati
- Dylid darparu ffenestr sy'n agor neu system awyru sydd wedi'i chymeradwyo gan Awdurdod Cynllunio Lleol
- Dylid darparu bin gwaredu gwastraff wedi'i orchuddio
- Dylid darparu hylif golchi llestri a llieiniau neu frwsh golchi llestri
- Dylid sicrhau bod blanced dân ar gael bob amser. Yn ddelfrydol, dylid lleoli'r flanced hon rhwng y popty a'r drws, a dylai fod yn hongian ar wal. Nid yw hi'n dderbyniol cadw'r flanced mewn cwpwrdd neu uwchben y popty. Gellid ei lleoli y tu allan i'r gegin, cyn belled â'i bod o fewn cyrraedd ac yn hawdd i gael gafael arni
- Mae ystafell fwyta/cegin hunanddarpar gyfunol yn dderbyniol
- Dylid darparu man cadw sy'n addas ar gyfer bwyd
- Dylid darparu digon o le i gadw llestri, cyllyll a ffyrc, cyfarpar cegin a chyfarpar glanhau
- Dylid sicrhau bod digon o declynnau coginio, llestri a gwydrau ar gael ar gyfer nifer y gwesteion y gall y llety ddarparu ar eu cyfer

Golau

- Dylid sicrhau bod digon o olau mewn ceginau a dylai fod gan bob golau gysgod neu fod wedi'i orchuddio'n addas.

Lloriau

- Dylid sicrhau bod gan bob cegin lawr â gorffeniad neu orchudd addas.

Isafswm y Gofynion Mynediad

Rhestr Eiddo'r Gegin

Dylid darparu un o'r rhain ar gyfer pob unigolyn:

Powlen – grawnfwyd neu bwdin
Fforc
Cyllell
Mwg
Plât (mawr a bach)
Llwy (te a phwdin)
Gwydr

Dylid ystyried a chyflenwi'r cyfarpar canlynol, fel sy'n briodol, ar gyfer pob cegin:

Bwrdd pobi
Cyfleusterau sylfaenol ar gyfer sychu dillad
Cynhwysydd storio
Cyllell fara
Bwrdd torri
Peiriant coffi/cafetière
Deunydd glanhau/tabledi/hylif/powdwr peiriant golchi llestri (os darperir peiriant golchi llestri)
Colandr
Set pupur a halen
Corcsgriw ac agorwr poteli
Llieiniau golchi llestri
Padell lwch a brwsh
Sleis bysgod
Clwtyn llawr/mop a bwced
Padell ffrio
Gratiwr
Hambwrdd gwneud rhew
Tegell – trydan awtomatig
Siswrn cegin
Lletwad
Jwg fesur
Jwg laeth
Clwt popty
Stwnsiwr tatws
Pliciwr tatws
Sosbenni (mawr, canolig, bach)
Basn siwgr
Lliain bwrdd/matiau lle
Llwy fwrdd x 2
Tebot
Llieiniau sychu llestri
Agorwr tuniau
Tostiwr
Hambwrdd
Dysgl llysiau x 2
Cyllell lysiau
Powlen/brwsh golchi llestri
Hylif golchi llestri
Jwg ddŵr
Gwydrau gwin
Llwy bren.

Canllawiau Ansawdd Campws

Dangosyddion Ansawdd

Rhoddir enghreifftiau o lefel yr ansawdd a ddisgwylir er mwyn cyflawni gradd o Un i Bum Seren ar gyfer pob rhan o'r asesiad. Defnyddir geiriau fel 'derbyniol', 'da' a 'da iawn' i nodi lefelau ansawdd esgynnol, ond maent yn ddiffiniadau eang iawn. Maent yn fwriadol amhenodol, gan gydnabod yr amrywiaeth eang o elfennau ansawdd y gellid eu cynnwys. Mae'r Dangosyddion Ansawdd yn cynrychioli disgwyliadau nodweddiadol ar gyfer ansawdd cynhenid a chyflwr, ac nid ydynt yn derfynol nac yn hollgynhwysol.

Y Tu Allan

Adeiladau – Golwg a Chyflwr

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Y tu allan i adeiladau'n cael eu cadw'n lân ac mewn cyflwr da • Yr eiddo'n cael ei gadw mewn cyflwr digonol ar y cyfan
2 Seren	• Taclusrwydd cyffredinol, gan gynnwys bocsys ffenestri, basgedi hongian, tybiau ac ati lle'n briodol • Arwyddion o heneiddio a diffygion wedi'u cyfyngu i ychydig o fannau yn unig • Adeiladau allanol yn ymddangos yn daclus
3 Seren	• Wedi'i gynnal yn dda, gyda rhywfaint o hindreulio naturiol • Defnydd deniadol o focsys ffenestri, basgedi hongian a thybiau lle'n briodol • Arwyddion yn cael eu cadw mewn cyflwr da
4 Seren	• Gwaith carreg a gwaith paentio wedi'u cynnal i safon uchel, er bod rhywfaint o hindreulio naturiol yn dderbyniol
5 Seren	• Y mannau allanol wedi'u cynnal i safon ragorol a'r gwaith paentio wedi'i gynnal yn dda, gan gynnwys adeiladau allanol ac arwyddion, gan ystyried oedran yr adeilad • Dim gwaith carreg na staeniau diolwg mewn adeiladau hŷn • Ychwanegu nodweddion fel tybiau blodau a bocsys ffenestri lle'n briodol • Digon o olau ac arwyddion clir

Tir/Gerddi/Blaen yr Adeilad – Taclusrwydd a Chyflwr

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Argraff gyntaf ddigonol e.e. biniau gwastraff a mannau storio wedi'u lleoli mewn mannau call heb fod yn amlwg ac yn cael eu cadw'n daclus • Llwybrau diogel • Rhodfeydd yn cael eu cynnal yn ddigonol
2 Seren	• Biniau gwastraff a mannau storio wedi'u lleoli mewn mannau call heb fod yn amlwg • Tystiolaeth o fwy o ymdrech i wneud gerddi'n fwy deniadol, yn daclus ac yn rhydd o sbwriel • Llwybrau heb berygl baglu
3 Seren	• Tir, rhodfeydd, llwybrau cerdded ac ati mewn cyflwr da ac yn cael eu cadw'n daclus • Golau ac arwyddion effeithiol lle bo angen e.e. ar rodfa hir • Mynediad hawdd. Wyneb sy'n cael ei gadw mewn cyflwr da
4 Seren	• Biniau sbwriel wedi'u cuddio, wedi'u sgrinio os yn bosibl • Safonau cynnal a chadw uchel yn yr ardd. Gwelyau blodau, llwybrau a gwrychoedd taclus, gyda phob coeden a llwyn yn cael eu cadw i safon uchel • Tystiolaeth o beth sylw i fanylion e.e. rhodfeydd esmwyth heb geudyllau a llwybrau llydan a gwastad
5 Seren	• Gwaith cynnal a chadw deniadol, gyda borderi neu lwyni wedi eu trin yn dda, llwybrau ac ymylon taclus, lawntiau mewn cyflwr da ac wedi'u torri'n dda, gwrychoedd wedi'u tocio ac ymgais gyffredinol i gadw'r lle yn daclus drwy'r flwyddyn • Goleuo ac arwyddion gwych wedi'u lleoli'n dda

Maes Parcio (lle darperir) – Ansawdd a Chyflwr

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Maes parcio sy'n ddiogel, yn gymharol hawdd i'w gyrraedd ac yn cael ei gadw'n ddigonol • Gall maes parcio llai ffurfiol fod yn briodol
2 Seren	• Rhyw ymdrech i reoli trefniadau parcio
3 Seren	• Mynediad da a hawdd gydag arwyddion fel sy'n briodol • Goleuo digonol • Dull mwy strwythuredig o barcio ar gyfer sefydliadau sy'n derbyn pobl nad ydynt yn breswylwyr
4 Seren	• Diffiniad clir o faes parcio neu lefydd parcio. Arwyddion yn atal dryswch i westeion pan maent yn cyrraedd. Gall hyn fod yn anffurfiol
5 Seren	• Digon o lefydd parcio gydag arwyddion clir • Goleuo da, wedi'u lleoli'n briodol • Rhoddir ystyriaeth i ddiogelwch ceir y gwesteion • Llwybrau a stepiau wedi'u goleuo'n dda yn y nos

ARFERION HYGYRCHEDD DA

Tir, gerddi, blaen yr adeilad a lle parcio

Cadwch lwybrau yn glir o sbwriel, mwsogl, rhew a dail a gofalwch fod wynebau'r llwybrau yn gadarn ac wedi'u cynnal yn dda. Dylai pob llwybr fod yn rhydd o rwystrau oni bai eu bod wedi'u gosod yn ddiogel. Dylech ddarparu arwyddion clir o'r prif lwybrau i'r campws gan nodi llefydd parcio a derbynfeydd. Amlygwch dwmpathau cyflymder a darparwch halen i drin mannau peryglus dros fisoedd y gaeaf.

Darparwch fannau penodedig i bobl anabl lle bo'n bosibl, ar wyneb cadarn, gwastad, wedi'i gynnal yn dda yn agos i'r prif fynediad/derbynfa ac i lety'r unigolyn. Fel arall, nodwch fan gollwng a dull i ymwelwyr allu cysylltu â chi i ddweud eu bod wedi cyrraedd a rhoi gwybod i chi os oes angen cymorth arnynt. Efallai y bydd rhai pobl yn hollol fyddar felly cofiwch na fyddant yn gallu eich clywed chi o bosibl. Meddyliwch am ddull gweledol o gydnabod eich bod wedi'u clywed nhw fel defnyddio fflachlamp.

Dylai'r llwybr o'r lle parcio i'r llety neu'r pwynt derbyn, fod o leiaf 180cm o led ac wedi'i oleuo'n dda.

Darparwch gludiant o'r dderbynfa i flociau llety "pell" i'r rhai sydd angen cymorth.

Darparwch ardal rydd i gŵn cymorth o gwmpas y llety.

ARFERION CYNALIADWYEDD DA

Ar gyfer tir, gerddi a blaen adeiladau, ystyriwch ddefnyddio deunyddiau sy'n gydnaws â'r amgylchedd lleol a nodweddion ffisegol daearyddiaeth a daeareg yr ardal.

Glanweithdra

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Pob arwyneb yn lân ac yn rhydd o lwch • Pob ystafell yn cael ei hwfro a phob llawr yn cael ei glanhau bob dydd • Mannau cyhoeddus/cymunedol yn cael eu cadw'n daclus
2 Seren	• Safon weddol dda ar y cyfan, er bod rhai mannau yn cael eu hesgeuluso
3 Seren	• Rhywfaint o dystiolaeth o sylw i fanylion, yn enwedig tynnu llwch ar lefelau uchel ac isel a mannau sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â'r gwesteion e.e. dillad gwely a llestri, toiledau a baddonau • Dodrefn meddal a charpedi'n cael eu cadw'n dda • Pob man yn rhydd o annibendod • Pob man yn arogli'n ffres ac yn lân
4 Seren	• Arwynebau glân wedi'u sgleinio. Dodrefn meddal a charpedi'n cael eu glanhau'n ddwfn yn rheolaidd • Mwy o sylw i fanylion, gyda safonau cyffredinol uwch
5 Seren	• Y lle fel pin mewn papur • Arwynebau'n sgleinio. Dim staeniau na marciau. Tystiolaeth o lanhau trylwyr • Dodrefn meddal a charpedi cwbl lân • Dillad gwely glân

Archebu Lle a Gwybodaeth

Ymholiadau Dros y Ffôn

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Ateb y ffôn trwy ddweud enw'r sefydliad a nodi manylion sylfaenol y gwestai
2 Seren	• Arddull addas wrth siarad â gwesteion
3 Seren	• Parodrwydd i helpu a dull trefnus o ddelio ag ymholiadau gwesteion
4 Seren	• Staff cymwys ac effeithlon yn delio ag ymholiadau mewn modd proffesiynol a chyson
5 Seren	• Fel arfer, dim mwy na phum caniad cyn ateb y ffôn

Ansawdd y Wybodaeth yn y Llyfryn ac ar y Wefan

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Y llyfryn/y wefan yn syml, gyda gwybodaeth sylfaenol • Lleoliad/map sylfaenol wedi'i gynnwys
2 Seren	• Y llyfryn/y wefan yn cynnwys mwy o fanylion
3 Seren	• Rhai lluniau yn y llyfryn/ar y wefan
4 Seren	• Y llyfryn/y wefan yn cynnwys ffotograffau lliw a manylion am bethau i'w gwneud yn yr ardal
5 Seren	• Y llyfryn/y wefan wedi'i chynhyrchu i safon broffesiynol uchel gyda llawer o fanylion am y llety a'r cyfleusterau ar y safle a phethau i'w gweld a'u gwneud yn yr ardal

ARFERION HYGYRCHEDD DA

Mae'n bwysig cofio bod hoff ddull pobl o gyfathrebu yn amrywio ac nad oes gan bawb fynediad i'r rhyngrwyd. Rhowch ddewis i ymwelwyr o ddulliau archebu e.e. ar y ffôn, trwy lythyr, e-bost, ffacs, gwasanaeth type talk a mini com, ac mae'n arfer da gofyn i bob ymwelydd a oes ganddo ofynion hygyrchedd. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach bellach gyda chyfleusterau archebu ar-lein yn golygu bod modd archebu lle heb gyswllt llafar rhyngoch chi â'r ymwelydd. Bydd cwblhau Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Anabledd yn eich helpu i allu ymateb yn well i anghenion gwirioneddol a chanfyddedig ymwelwyr.

Dylid darparu gwybodaeth am wasanaethau ychwanegol fel trefniadau glanhau dyddiol, prydau bwyd, gwasanaethau ysgrifenyddol a golchi/sychlanhau mewn amryw o fformatau i ddiwallu anghenion gwahanol bobl e.e. print bras, Braille, ffotograffau, lawrlwythiadau MP3. Wrth gomisiynu gwefan newydd neu ddiweddaru gwefan, gofalwch fod eich dylunwyr yn gyfarwydd â chanllawiau hygyrchedd y we – www.w3.org.uk

ARFERION CYNALIADWYEDD DA

Ystyriwch lunio eich polisi rheoli amgylcheddol eich hun, gan nodi'r camau rheoli amgylcheddol a chynaliadwy a gwblhawyd; ymunwch â chynllun rheoli twristiaeth werdd. Sefydlwch neu ymunwch â chynllun ad-dalu ymwelwyr gwirfoddol lle mae colegau yn casglu a chyfrannu arian i elusen leol.

Ansawdd Cyflwyniad Gwybodaeth i Westeion ac Ymwelwyr

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Gwybodaeth brin am y llety/cyfleusterau'r safle ar hysbysfwrdd mewn man cymunedol • Gwybodaeth brin i ymwelwyr ar hysbysfwrdd mewn man cymunedol neu ar gael o'r dderbynfa ar gais
2 Seren	• Mwy o wybodaeth ar gael yn hawdd.
3 Seren	• Mynediad hawdd i wybodaeth i ymwelwyr sydd ar gael i westeion ei darllen, gall fod mewn rhesel taflenni neu ffeil mewn lleoliad canolog
4 Seren	• Digon o wybodaeth i ymwelwyr a dylai fod ar gael i westeion ei darllen • Gwybodaeth am y llety a chyfleusterau'r safle'n glir ac wedi'i chyflwyno'n dda, ac ym mhob ystafell wely o bosibl
5 Seren	• Ffolder wybodaeth drylwyr ym mhob ystafell wely, gyda gwybodaeth glir wedi'i chyflwyno'n dda am y safle a'r llety • Gwybodaeth i ymwelwyr yn cael ei hategu gan argymhellion personol a lleol e.e. llefydd i fwyta, i siopa ac i ymweld â nhw

ARFERION HYGYRCHEDD DA

Fel rhan o'r wybodaeth i ymwelwyr, darparwch gynlluniau neu fapiau o'r campws mewn amryw o fformatau – e.e. print bras, Braille, sain.

ARFERION CYNALIADWYEDD DA

Y wybodaeth i ymwelwyr yw'ch cyfle i restru mannau cyfagos sy'n gwerthu bwyd a diod o'r ardal a chrefftau lleol, ac i roi rhywfaint o wybodaeth am y cynhyrchwyr lleol hynny. Gallech roi awgrymiadau am deithiau heb orfod defnyddio car a rhoi manylion amserlenni trafnidiaeth gyhoeddus a rhifau cyswllt i annog ymwelwyr i deithio fel hyn. Rhowch wybodaeth am lwybrau cerdded a beicio a manylion unrhyw gyfleusterau llogi beiciau lleol.

Ystafelloedd Gwely – Ansawdd a Chyflwr

Addurno

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Decor ymarferol a chydweddu cyfyngedig
2 Seren	• Gall y decor fod yn hen, ond heb lawer o ddifrod na chrafiadau
3 Seren	• Gwaith addurno yn cydweddu • Waliau a gwaith paent wedi'u gorffen yn dda
4 Seren	• Safon dda iawn o addurno • Rhywfaint o ymdrech i guddio pibellau a gwifrau sydd wedi'u gosod ar arwynebau
5 Seren	• Addurno o safon ragorol • Rhywfaint o ddefnydd o luniau

Dodrefn, Dodrefn Meddal a Ffitiadau

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Darpariaeth brin ond digonol o ddodrefn, dodrefn meddal a ffitiadau. Gall rhywfaint o ddifrod fod yn weladwy ond gellir defnyddio pob eitem • Nid oes rhaid i lenni fod wedi'u leinio ond dylent gyfarfod yn y canol. Dylai bleinds agor a chau'n iawn • Gallai ffitiadau goleuo a gwresogi fod yn ddiffygiol o ran ansawdd • Seddi addas mewn cyflwr derbyniol
2 Seren	• Dodrefn/ffitiadau mewn cyflwr eithaf da heb lawer o draul. Ansawdd 'domestig' o bosibl • Ffitiadau goleuo a gwresogi o safon eithaf da
3 Seren	• Digon o ddodrefn ym mhob ystafell. Gallant fod o safon eithaf da a/neu fflatpac • Ffitiadau a dodrefn o safon mewn cyflwr defnyddiadwy da • Cydweddu'n dda • Llenni i fod yn llawn ac yn effeithiol o ran cadw gwres i mewn/golau allan • Cyfanswm y dodrefn yn addas ar gyfer y lle sydd ar gael
4 Seren	• Dodrefn o safon, er nid yn newydd o reidrwydd, ond sy'n cynnig lle a chysur sylweddol • Ffitiadau goleuo a gwresogi da iawn yn cael eu cadw mewn cyflwr da iawn • Seddi'n debygol o fod wedi'u padio
5 Seren	• Ansawdd gwych, cadarn, bron dim arwyddion o draul • Gorchuddion ffenestri wedi'u gosod yn dda ac o led digonol • Ffitiadau goleuo a gwresogi o safon uchel • Drych hyd llawn yn debygol o gael ei gynnwys

Lloriau

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Lloriau digon cyfforddus. Rhai arwyddion o draul o bosibl • Heb eu gosod yn broffesiynol o bosibl
2 Seren	• Lloriau o safon eithaf da, ond gall carpedi gynnwys llawer o ffeibr artiffisial
3 Seren	• Lloriau o safon dda, wedi'u gosod yn dda, mewn cyflwr da ac yn gyfforddus o dan draed • Lloriau pren mewn cyflwr da • Rhywfaint o isgarped
4 Seren	• Lloriau o safon uchel, ond nid yn newydd o reidrwydd, a gallant ddangos arwyddion o draul. Neu ansawdd mwy cymedrol, ond mewn cyflwr campus. Wedi'u gosod yn broffesiynol fel arfer
5 Seren	• Carpedi o safon uchel wedi'u gosod yn broffesiynol gydag isgarped sylweddol • Estyll wedi'u sgleinio neu laminiad o safon uchel gyda rygiau

Gwelyau a Dillad Gwely

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Ansawdd derbyniol, ond gall matresi fod yn denau a gwaelodion yn fas. Pen gwely neu rywbeth cyfwerth yn lân a chadarn • Gwelyau wedi'u cyflwyno'n ddigonol gyda dillad gwely glân a gorchuddion gwely mewn cyflwr da • Amrywiaeth ddigonol o ddillad gwely, gan gynnwys digon o flancedi
2 Seren	• Gwelyau a dillad gwely o ansawdd eithaf da. Gwelyau a matresi'n cael eu cadw mewn cyflwr da • Gall dillad gwely fod wedi colli'u lliw, ond ceir rhywfaint o ymdrech i gydweddu
3 Seren	• Gwelyau cyfforddus o safon dda. Matresi cadarn a gwaelodion cadarn • Gall fframiau gwely fod yn hŷn, ond mewn cyflwr da • Gwelyau wedi'u cyflwyno'n dda gyda dillad gwely mewn cyflwr da. Dylai gobenyddion fod yn sylweddol ac mae'n debygol bod amddiffynyddion matresi'n cael eu defnyddio
4 Seren	• Matresi da iawn a gwaelodion cadarn. Pen gwely'n cynnig digon o gysur os darperir un • Dillad gwely o ansawdd da iawn, a gall gydweddu gyda'r thema addurno
5 Seren	• Gwelyau maint llawn o safon ragorol • Duvet neu flancedi trwm o ansawdd rhagorol, gyda rhai ychwanegol ar gael • Unrhyw ddillad gwely ychwanegol a ddarperir mewn ystafelloedd gwesteion wedi'u lapio

Golau / Gwres / Awyru – Ansawdd y Ddarpariaeth

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Golau digonol wedi'u lleoli'n briodol. Digon o oleuo at ddefnydd ymarferol • Gwres digonol a ddylai fod yn effeithiol ar gyfer yr ystafell lawn yn ystod cyfnodau oerach. Dylai rhyw fath o ddyfais wresogi annibynnol fod ar gael ar gyfer y misoedd oerach os nad oes gan yr ystafelloedd gwely system wresogi sefydlog • Aer ffres ar gael trwy ffenestr sy'n agor neu system cyfnewid aer
2 Seren	• Lefelau goleuo eithaf da – gall fod yn brif olau ac un golau arall, watedd uwch na'r isafswm o 140 W • Gall y gwres fod yn annibynnol a gall fod yn awtomatig neu dan reolaeth thermostat • Gall fod yn gymysgedd o systemau gwresogi, rhai sefydlog a rhai symudol • Cynnal tymheredd cefndir da y gellir ei gynyddu yn ôl y gofyn
3 Seren	• Lefelau da o oleuo y gellir ei reoli ym mhob ystafell wely • Mwy nag un ffynhonnell olau'n debygol. Digon o olau naturiol • Lefelau effeithiol o wresogi'n darparu tymheredd cyffredinol cytbwys • System wresogi sefydlog ac awtomatig wedi'i gosod yn gywir a all fod dan reolaeth thermostat
4 Seren	• Lefelau goleuo da iawn a hawdd cyrraedd y rheolyddion. Gellir defnyddio gwahanol fathau o oleuadau e.e. goleuadau wal a lampiau • System wresogi sefydlog ac awtomatig wedi'i gosod yn gywir a all fod dan reolaeth thermostat
5 Seren	• Goleuadau o safon uchel ac wedi'u lleoli'n dda, gyda lefelau gwych o olau at wahanol ddibenion e.e. darllen ac wrth y bwrdd gwisgo/desg ysgrifennu • Byddai gallu rheoli'r prif olau o'r drws a'r gwely'n ddymunol • Lefelau gwresogi'n cael eu rheoli'n llawn drwy'r dydd a'r nos gan y gwestai. Efallai na fydd rhai stôr-wresogyddion hŷn yn bodloni'r gofyniad hwn

ARFERION HYGYRCHEDD DA

Mae diogelu wynebau cyfarpar gwresogi i amddiffyn pobl rhag llosgi o fudd i bawb, ac ni ddylid lleoli rheiddiaduron neu ddyfeisiau gwresogi eraill mewn mannau a fyddai'n cyfyngu ar le wrth gario bagiau neu ddefnyddio ffrâm gerdded neu gadair olwyn.

ARFERION CYNALIADWYEDD DA

Gall gwella inswleiddiad a defnyddio mwy o wresogi wedi'i reoli â thermostat a gwresogi parthau helpu i arbed ynni, a cheisiwch ddefnyddio cymaint o olau naturiol â phosibl.

Gofod, Cysur a Rhwyddineb Defnyddio

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Dylid gallu agor drysau a droriau'n llawn, heb orfod symud dodrefn • Ystafell yn ddigon mawr i gynnwys yr holl ddodrefn angenrheidiol, ond heb roi llawer o ystyriaeth i'r cynllun • Gallu symud o gwmpas yn rhesymol, heb ormod o rwystrau • Inswleiddio sŵn rhesymol, heb lawer o sŵn o waith plymio, coridorau ac ati
2 Seren	• Bydd angen i ystafelloedd fod yn fwy, gyda llawer mwy o le o amgylch dodrefn a ffitiadau • Ystafelloedd taclus • Seddi boddhaol ar gyfer y math o lety • **DS Os mai dim ond un ochr o wely dwbl y gellir cael mynediad iddo mewn ystafell i ddau westai, ni ellir dyfarnu gradd uwch na Dwy Seren**
3 Seren	• Digon o le fel y gall gwesteion symud o gwmpas a digon o gysur • Defnydd hawdd o holl gyfleusterau ystafell wely • Dodrefn wedi'u lleoli'n gyfleus ar gyfer defnydd ymarferol • Gallu gweld teledu o'r man eistedd neu'r gwely os darperir un • Hawdd cyrraedd dwy ochr gwely dwbl • Cadeiriau ymarferol a chyfforddus • Digon o socedi ar gyfer yr holl gyfarpar a ddarperir
4 Seren	• Dodrefn wedi'u lleoli'n dda i wneud defnydd llawn o'r gofod sydd ar gael. Gallai ystafelloedd fod yn llai, ond mae cynllunio gofalus yn golygu y gellir defnyddio mwy o'r gofod sydd ar gael • Hawdd iawn cyrraedd dwy ochr gwely dwbl • Un gadair i bob gwestai o bosibl • Socedi sbâr hygyrch wedi'u lleoli'n dda ar gyfer pob defnydd • Dim llawer o sŵn
5 Seren	• Ystafell eang wedi'i chynllunio'n dda gyda dodrefn mewn mannau cyfleus i sicrhau lefel uchel o gysur. Lle i storio bagiau heb annibennu a rhwystro mynediad • Defnydd hawdd a chyfleus o gyfleusterau e.e. defnyddio arwynebau heb symud hambwrdd te neu deledu (lle darperir), mynediad i bwyntiau pŵer ac ati • Cadeiriau cyfforddus • Digon o le i gyrraedd dwy ochr gwely dwbl • Dim sŵn ymyrol

ARFERION HYGYRCHEDD DA

Dylid darparu ystafelloedd gwely ar y llawr gwaelod lle bo'n bosibl.

Mae dodrefn rhydd-sefyll a, lle bo'n bosibl, gwelyau cysylltu â sip yn eich galluogi chi i fod yn fwy hyblyg gyda chynllun yr ystafell. Bydd hyn yn fuddiol pan fydd angen darparu lle i ofalwr sy'n teithio gyda pherson anabl neu ar gyfer person sydd â nam ar ei olwg.

Gofalwch fod gennych chi rai blociau ar gael fel bod modd addasu uchder y gwelyau.

Gofalwch fod digon o le i gerdded o gwmpas yr ystafell wely heb daro yn erbyn dodrefn. A fydd yr ymwelwyr yn gallu cyrraedd y ffenestri a'r llenni ac a ydynt yn hawdd i'w hagor a'u cau?

Gosodwch switsh pylu er mwyn gallu addasu lefel y golau a/neu darparwch lampiau ymyl gwely/bwrdd gwisgo ychwanegol.

Pan ddarperir mynediad i gadair olwyn, gofalwch fod yna 120cm o le troi a mynediad gwastad i'r gawod/baddon gyda sedd neu declyn codi.

Ystyriwch baentio fframiau'r drysau mewn lliw sy'n cyferbynnu â lliw'r wal er mwyn helpu pobl â nam ar eu golwg. Peidiwch â defnyddio paent â gorffeniad sgleiniog iawn.

Os oes gennych welyau bync, gofalwch fod o leiaf 120cm rhwng rhesi.

Sicrhewch fod yr holl ymhelwyr yn gwybod sut i roi isdeitlau ar y teledu trwy ddefnyddio'r teclyn rheoli o bell. Bydd hyn o fudd i bobl â nam ar eu clyw ac ymwelwyr sy'n siarad iaith dramor.

Ystafelloedd Ymolchi / En-suite / Toiledau – Ansawdd a Chyflwr

Darpariaeth En-suite

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Dim cyfleusterau preifat neu en-suite o bosibl
2 Seren	• Rhai ystafelloedd gwely gyda chyfleusterau preifat neu en-suite
3 Seren	• O leiaf 40% o ystafelloedd gwely gyda chyfleusterau preifat neu en-suite
4 Seren	• O leiaf 60% o ystafelloedd gwely gyda chyfleusterau preifat neu en-suite
5 Seren	• O leiaf 80% o ystafelloedd gwely gyda chyfleusterau preifat neu en-suite

Addurn

Cydnabyddir bod llawer o weithredwyr yn defnyddio'r ystafelloedd ymolchi 'pod' sy'n cael eu mowldio mewn resin/plastig fel un darn. Mae'r rhain yn dderbyniol a, lle sonnir am addurno a theils yn yr adran hon, mae hefyd yn cwmpasu waliau/nenfydau mewnol y mathau hyn o unedau.

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Decor mewn cyflwr derbyniol, rhai mannau wedi dirywio neu wedi'u difrodi gyda marciau neu draul yn amlwg, rhywfaint o baent yn fflawio ond yn dda ar y cyfan • Ychydig o ddifrod neu graciau mewn teils neu arwynebau • Seliadau a growt yn dechrau colli lliw
2 Seren	• Addurno o safon eithaf da ac mewn cyflwr da, ond efallai bod rhai arwyddion o draul
3 Seren	• Addurno o safon dda heb lawer o draul. Gall fod yn swyddogaethol, ond yn edrych yn ffres ac yn cael ei gadw'n dda • Teils yn gadarn, er efallai na fyddant mewn cyflwr perffaith • Seliadau a growt yn dechrau colli lliw
4 Seren	• Addurno o safon dda iawn. Gall y gorffeniad fod yn gymharol syml e.e. emwlsiwn neu baent ystafell ymolchi, ond wedi'i addurno'n dda ac yn cael ei gadw mewn cyflwr gwych • Gall teils fod yn eang ac unffurf ac o safon dda iawn. Safonau'n cael eu cynnal trwy bob ystafell ymolchi, ac mae marciau neu ddifrod gweladwy'n brin iawn • Rhywfaint o ymdrech wedi'i wneud i guddio pibellau a gwifrau ar arwynebau
5 Seren	• Ansawdd a chyflwr gwych. Bron pob wal wedi'i theilio neu gyfuniad o arwynebau a phob un mewn cyflwr gwych. Seliadau a growt yn berffaith

Ffitiadau ac Offer Ystafell Ymolchi

Cydnabyddir bod llawer o weithredwyr yn defnyddio'r ystafelloedd ymolchi 'pod' sy'n cael eu mowldio mewn resin/plastig fel un darn. Mae'r rhain yn dderbyniol ar gyfer unrhyw lefel gradd sêren yn y cynllun hwn.

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Ffitiadau ac offer ystafell ymolchi o ansawdd derbyniol ac mewn cyflwr derbyniol, ond gallant fod yn hen ffasiwn • Dylai fod cyflenwad digonol o ddŵr poeth bob amser • Gorchuddion ffenestri priodol, wedi'u gosod yn gywir • Darparu arwyneb gwastad ar gyfer nwyddau gwesteion • Ffitiadau golau a gwres digonol • Rheilen tywelion fach ond digonol
2 Seren	• Ffitiadau ac offer ystafell ymolchi o ansawdd eithaf da, ond gallant fod ychydig yn hen ffasiwn neu wedi treulio • Efallai na fydd dodrefn ystafell ymolchi yn cyfateb i'w gilydd a gallant gynnwys sinciau plastig, cawodydd ac ati • Gall sinciau fod yn fach a gall ffitiadau cawod fod o ansawdd sylfaenol • Digon o ddŵr poeth ar adegau brig
3 Seren	• Cawodydd effeithlon gyda thymheredd wedi'i osod yn gywir neu reolyddion effeithiol, sinciau o faint safonol, i gyd mewn cyflwr da • Dim baddonau bach neu gawodydd bach gyda mynediad lletchwith • Ffitiadau golau a gwres o ansawdd da • Gorchuddion ffenestri wedi'u gosod yn dda, gyda digon o led ac uchder i dynnu'n gyfan gwbl ar draws y ffenestr • Digon o le ar silffoedd i gadw eiddo gwesteion
4 Seren	• Ffitiadau a gosodiadau o ansawdd da iawn. Llif pwerus y gellir ei reoli'n llawn mewn cawodydd • Sgrîn cawod neu len cawod o safon uchel ac yn edrych yn ffres • Basnau cawodydd a baddonau o safon dda - ceramig/enamel neu gymysg o bosibl • Tapiau a dolenni rheiliau tywelion o safon uchel, heb lawer o arwyddion amlwg o draul
5 Seren	• Ffitiadau solet o safon uchel ac mewn cyflwr gwych, sy'n cydweddu • Baddon cadarn o haearn neu ddur ac enamel. Cawodydd neu sgriniau cawod o safon uchel • Digon o ddŵr poeth bob amser • Digon o le ar reilen tywelion • Rheilen tywelion sy'n cael ei gwresogi, neu reilen tywelion wedi'i gosod uwchben rheiddiadur

Lloriau

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Mae arfer gorau yn awgrymu bod lloriau y gellir eu golchi'n fwy hylan na charpedi • Lloriau o safon ymarferol ac yn ddigon cyfforddus. Gall rhywfaint o arwyddion o draul fod yn amlwg • Heb eu gosod yn broffesiynol o bosibl
2 Seren	• Lloriau mewn cyflwr eithaf da, ond o ansawdd cymedrol o bosibl. Gall rhywfaint o draul fod yn amlwg
3 Seren	• Lloriau o ansawdd da, wedi'u gosod yn dda, mewn cyflwr cadarn ac yn gyfforddus o dan draed • Lloriau pren mewn cyflwr da • Ymylon a semau wedi'u selio'n dda
4 Seren	• Lloriau o safon uchel, ond nid o reidrwydd yn newydd a gall rhywfaint o draul fod yn amlwg neu o ansawdd cymedrol ond mewn cyflwr ardderchog • Wedi'u gosod yn broffesiynol fel arfer
5 Seren	• Wedi'u gosod yn broffesiynol, gyda theils, finyl neu laminiad o safon uchel, er enghraifft • Lle bo teils ar y llawr, mae growt a seliadau mewn cyflwr gwych

Golau, Gwres ac Awyru

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Lefelau goleuo digonol ar gyfer arddull, maint a siâp yr ystafell ymolchi. Gall fod yn olau canolog yn unig, gydag ychydig neu ddim golau wrth y sinc • Gwresogi digonol ar gyfer maint yr ystafell ar bob adeg resymol, efallai nad yw'n awtomatig, ond dylai fod yn sefydlog er diogelwch • Awyru effeithiol. Ffenestr yn unig o bosibl
2 Seren	• Lefelau goleuo eithaf da. Prif olau'n unig o bosibl • Gwresogi sy'n cynnig lefel addas o wres a all gael ei reoli'n awtomatig neu gan thermostat • Gall y system awyru fod trwy ddull mecanyddol cyfyngedig
3 Seren	• Goleuadau wedi'u lleoli'n dda ac yn rhoi digon o olau, yn enwedig wrth y drych. Digon o olau naturiol • Lefelau gwresogi cyfforddus, yn briodol i faint yr ystafell ac yn darparu tymheredd cyffredinol cytbwys
4 Seren	• Goleuadau wedi'u lleoli'n dda sy'n effeithiol at bob diben, yn enwedig dros neu yn ymyl y drych • Gwahanol fathau o oleuadau'n cael eu defnyddio am resymau ymarferol neu esthetig o bosibl e.e. goleuadau halogen • System wresogi wedi'i gosod yn gywir, awtomatig ac yn cael ei rheoli gan thermostat • Systemau awyru sy'n gallu ymdopi â chyfnodau prysur
5 Seren	• Goleuadau o safon dda wedi'u lleoli'n dda sy'n goleuo'n dda at wahanol ddibenion e.e. eillio, rhoi colur ac ati • Gwresogi ymatebol awtomatig sy'n cael ei reoli gan thermostat. Efallai na fydd rhai stôr-wresogyddion hŷn yn bodloni'r gofyniad hwn. Gall gwres gael ei ddarparu gan reilen tywelion sy'n cael ei gwresogi o bosibl • Lle bo ffenestr, disgwylir ffan echdynnu yn ogystal â'r ffenestr

Gofod, Cysur a Rhwyddineb Defnyddio

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Cyfleusterau o faint digonol ond efallai ychydig yn gyfyngedig mewn mannau • Pwysau dŵr digonol a draeniad boddhaol • Arwyneb gwastad cyfyngedig ar gael ar gyfer eiddo gwesteion
2 Seren	• Lefelau cysur a gofod eithaf da. Gofod cyfyngedig o bosibl ond dylai gwesteion allu defnyddio cyfleusterau'n gyfforddus gyda mynediad cyfleus i faddon, cawod a thoiled • Cawodydd o faint safonol
3 Seren	• Ystafelloedd ymolchi o faint da gyda chawodydd mawr a digon o le i newid/sychu • Ffitiadau a gosodiadauwedi'u lleoli'n dda ar gyfer rhwyddineb defnyddio
4 Seren	• Ffitiadau a dodrefn ystafell ymolchi wedi'u lleoli'n dda i sicrhau cyfleustra a rhwyddineb defnyddio • Darpariaeth dda o silffoedd ar gyfer taclau ymolchi gwesteion ac ati
5 Seren	• Digon o le mewn cyfleusterau wedi'u cynllunio'n dda, gan sicrhau rhwyddineb defnyddio ar gyfer holl anghenion gwesteion • Digon o ddarpariaeth ar gyfer gosod deunydd ymolchi, cyfarpar eillio a hongian dillad • Dim llawer o sŵn o waith plymio

ARFERION HYGYRCHEDD DA

Gall darparu cyfarpar fel seddau baddon, codwyr seddau toiled a chadeiriau cawod a rheiliau cymorth i'r toiled a'r baddon/cawod fod o fudd i lawer o ymwelwyr.

I helpu pobl â nam ar eu golwg, dylai'r toiled, y sinc a'r baddon fod mewn lliw sy'n cyferbynnu â lliw'r waliau a'r llawr yr ystafell ymolchi a dylai'r tyweli gyferbynnu yn yr un modd. Dylech ystyried paentio ffrâm y drws mewn lliw cyferbyniol hefyd.

Wrth adnewyddu eich ystafell ymolchi, dylai'r holl ffitiadau cyflenwad dŵr poeth fod â falf gymysgu, sy'n golygu na all y dŵr fynd yn boethach na 41C, gan atal pobl rhag llosgi. Darparwch dapiau lifer neu atodion lifer ar sinc a baddon ac yn y gawod, yn ddelfrydol hefyd.

Mae'n bwysig fod lloriau ystafell ymolchi yn rhai di-lithr, er budd pawb. Ystyriwch ddarparu cortyn tynnu mewn argyfwng sydd wedi'i gysylltu â larwm allanol clywadwy/gweledol.

Pan ddarperir mynediad i gadair olwyn, bydd ystafell wlyb yn cynnwys sinc, toiled a chawod gyda mynediad gwastad hefyd o fudd i'r rhai sy'n defnyddio cymorth cerdded.

ARFERION CYNALIADWYEDD DA

Gellir defnyddio dyfeisiau arbed dŵr fel "Hippo" mewn seston toiled a gall darparu cyfleusterau cawod helpu i leihau faint o ddŵr a ddefnyddir

Pob Man Cyhoeddus (gan gynnwys ansawdd a chyflwr lolfeydd, bariau, cynteddau, grisiau, pen grisiau a thoiledau cyhoeddus).

Addurn

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Decor ymarferol ac ychydig o gydweddu
2 Seren	• Gall y decor fod yn hen ffasiwn, ond heb ormod o ddifrod na chrafiadau
3 Seren	• Addurno sy'n cydweddu • Waliau a gwaith paent o ansawdd da
4 Seren	• Addurno o safon dda iawn • Rhywfaint o ymdrech wedi'i wneud i guddio pibellau a gwifrau ar arwynebau
5 Seren	• Addurno mewn cyflwr gwych • Rhai lluniau o bosibl

Dodrefn, Dodrefn Meddal a Ffitiadau

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Darpariaeth brin ond digonol o ddodrefn, dodrefn meddal a ffitiadau. Gall rhywfaint o ddifrod fod yn amlwg, ond gellir defnyddio pob eitem • Gallai ffitiadau golau a gwres fod yn ddiffygiol o ran ansawdd • Seddi addas mewn cyflwr derbyniol
2 Seren	• Dodrefn/ffitiadau mewn cyflwr eithaf da, heb lawer o draul yn amlwg. Ansawdd 'domestig' o bosibl • Ffitiadau golau a gwres o safon eithaf da
3 Seren	• Digon o ddodrefn ym mhob man. Ffitiadau a dodrefn o ansawdd da ac mewn cyflwr da neu gallant fod o ansawdd cymedrol a/neu ar ffurf fflatpac. Rhai arwyddion o draul • Llenni neu fleinds o ansawdd da • Cyfanswm y dodrefn yn cyfateb i'r defnydd o'r lle a'r gofod sydd ar gael
4 Seren	• Dodrefn o safon, nid o reidrwydd yn newydd, ond yn cynnig cysur a gofod sylweddol • Seddi'n debygol o gynnwys padin a digon ohonynt ar gyfer nifer y gwesteion • Ffitiadau golau a gwres o ansawdd da iawn ac yn cael eu cadw mewn cyflwr da iawn
5 Star	• Ansawdd gwych, o wneuthuriad solet, a bron dim arwyddion o draul • Ffitiadau golau a gwres o safon uchel

Lloriau – Ansawdd a Chyflwr

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Lloriau yn ddigon cyfforddus. Gall rhai arwyddion o draul fod yn amlwg • Heb eu gosod yn broffesiynol o reidrwydd
2 Seren	• Lloriau o ansawdd eithaf da, ond gall carpedi gynnwys llawer o ffeibr artiffisial
3 Seren	• Lloriau o safon uchel, wedi'u gosod yn dda, mewn cyflwr da ac yn gyfforddus o dan draed • Teils a lloriau pren mewn cyflwr da • Rhywfaint o isgarped
4 Seren	• Lloriau o safon uchel, ond nid yn newydd o reidrwydd, a gallant ddangos arwyddion o draul neu ansawdd mwy cymedrol, ond mewn cyflwr ardderchog. Wedi'u gosod yn broffesiynol fel arfer
5 Seren	• Carpedi o safon uchel wedi'u gosod yn broffesiynol (e.e. cynnwys canran uchel o wlân, mewn cyflwr gwych) gydag isgarped sylweddol • Gall lloriau gael eu defnyddio i greu argraff mewn cyntedd neu ardal y dderbynfa

Golau a Gwres – Ansawdd y Ddarpariaeth

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Lefelau goleuo digonol ar gyfer arddull, maint a siâp yr ystafell • Gwresogi effeithiol ym mhob man ar bob adeg resymol • Lefelau gwresogi'n briodol ar gyfer maint yr ystafell. Ddim yn awtomatig nac yn sefydlog o bosibl
2 Seren	• Lefelau goleuo eithaf da • Gall y dull gwresogi fod yn annibynnol a gall gael ei reoli'n awtomatig neu gan thermostat
3 Seren	• Goleuadau wedi'u lleoli'n dda ac yn rhoi digon o olau • Lefelau gwresogi effeithiol yn darparu tymheredd cyffredinol cytbwys • System wresogi wedi'i gosod yn gywir ac sy'n cael ei rheoli gan thermostat
4 Seren	• Lefelau goleuo da iawn, lle defnyddir gwahanol fathau o oleuadau am resymau ymarferol, esthetig ac awyrgylch e.e. goleuadau halogen, lampau safonol neu oleuadau llun • System wresogi awtomatig wedi'i gosod yn gywir a all gael ei rheoli gan thermostat
5 Seren	• Gwahanol fathau o oleuadau sy'n rhoi golau da at bob diben ymarferol, a gellir eu defnyddio i roi pwyslais ar fannau penodol • Ymdrech gadarnhaol wedi'i gwneud i sicrhau bod gwresogi'n diwallu anghenion y gwesteion. Ffynhonnell wrth gefn o wres ar gyfer tywydd oer iawn

Gofod, Cysur a Rhwyddineb Defnyddio

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Digon o le ar gyfer yr holl ddodrefn angenrheidiol ond heb roi llawer o sylw i'r cynllun • Amgylchedd derbyniol i westeion heb ormod o sŵn ac ati
2 Seren	• Gofod taclus gyda mwy o ofod y gellir ei ddefnyddio • Gellid gwella ar lefel y cysur ar gyfer gwesteion
3 Seren	• Y dderbynfa'n ddigon mawr ar gyfer gwesteion a'u bagiau • Digon o le i sicrhau bod gwesteion yn teimlo'n gysurus
4 Seren	• Wedi'i gynllunio'n dda i wneud y defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael • Dim llawer o sŵn
5 Seren	• Ystafelloedd mawr wedi'u cynllunio'n dda gyda dodrefn mewn mannau addas a chyfleus. Cyfleusterau cyfleus a hawdd i'w defnyddio. Digon o le • Awyrgylch ffres ac eang

Ystafell Fwyta neu Fwyty – Ansawdd a Chyflwr

Addurn

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Decor ymarferol ac ychydig o gydweddu
2 Seren	• Y decor yn hen ffasiwn o bosibl ond heb ei ddifrodi, crafu na rhwygo. Dim bwyd wedi'i golli
3 Seren	• Gorchuddion wal a gwaith paent o ansawdd da, wedi'u gorffen yn dda, gyda gorchuddion wal a nenfwd wedi'u defnyddio'n dda
4 Seren	• Safon dda iawn o addurno, gyda lluniau a phrintiau o safon uchel yn cael eu defnyddio lle bo hynny'n berthnasol • Rhywfaint o ymdrech wedi'i wneud i guddio pibellau a gwifrau ar arwynebau
5 Seren	• Addurno gwych, gyda llawer o fanylder. Patrymau, lliwiau a gweadau wedi'u cydweddu'n ystyriol • Defnydd deniadol o luniau, printiau a deunyddiau addurnol eraill

Dodrefn, Dodrefn Meddal a Ffitiadau

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Dodrefn a dodrefn meddal yn ddigonol o ran ansawdd ac amrywiaeth. Rhywfaint o gydweddu. Dodrefn yr ystafell fwyta ddim yn cyfateb o bosibl • Ffitiadau golau a gwres o ansawdd a diogelwch derbyniol ar gyfer arddull, maint a siâp yr ystafell • Pob gorchudd ffenestr wedi'i osod yn gywir
2 Seren	• Dodrefn, dodrefn meddal a ffitiadau o ansawdd da, yn gadarn ac yn addas ar gyfer y diben. Fel arall, hwyrach bod y dodrefn yn arfer bod o ansawdd gwych ond eu bod bellach yn dangos eu hoedran ac arwyddion o draul • Ffitiadau golau a gwres o ansawdd eithaf da ac mewn cyflwr da
3 Seren	• Dodrefn o ansawdd da ac mewn cyflwr da. Maint a nifer y dodrefn yn cyfateb i'r gofod sydd ar gael • Cydweddu'n dda • Ffitiadau a chysgodlenni golau o ansawdd da, heb farciau llosgi
4 Seren	• Dodrefn, dodrefn meddal a ffitiadau o safon uchel ac mewn cyflwr da iawn. Nid yw dodrefn o reidrwydd yn newydd ond maent yn gyfforddus iawn • Llenni llawn, o bosibl gydag addurniadau ychwanegol fel deunyddiau i'w clymu'n ôl
5 Seren	• Dodrefn o safon uchel ac mewn cyflwr gwych • Ffitiadau golau o bob math o ansawdd gwych • Ffitiadau gwres mewn cyflwr gwych

Lloriau – Ansawdd a Chyflwr

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Lloriau'n ddigon cyfforddus. Gall rhai arwyddion o draul fod yn amlwg • Heb eu gosod yn broffesiynol o reidrwydd
2 Seren	• Lloriau o ansawdd eithaf da, ond gall carpedi gynnwys llawer o ffeibr artiffisial
3 Seren	• Lloriau o safon dda, wedi'u gosod yn dda, mewn cyflwr da ac yn gyfforddus o dan draed • Teils a lloriau pren mewn cyflwr da • Rhywfaint o isgarped
4 Seren	• Lloriau o safon uchel, ond nid yn newydd o reidrwydd, a gallant ddangos arwyddion o draul neu ansawdd mwy cymedrol, ond mewn cyflwr ardderchog. Wedi'u gosod yn broffesiynol fel arfer
5 Seren	• Carpedi o safon uchel wedi'u gosod yn broffesiynol gydag isgarped sylweddol • Estyll wedi'u sgleinio neu laminiad o safon uchel

Golau a Gwres – Ansawdd y Ddarpariaeth

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Lefelau goleuo digonol ar gyfer arddull, maint a siâp yr ystafell. Angen bod yn ddigon da i ddarllen bwydlenni ac ati • Gwresogi effeithiol ym mhob man ar bob adeg resymol • Lefelau gwresogi'n briodol ar gyfer maint yr ystafell. Ddim yn awtomatig nac yn sefydlog o bosibl
2 Seren	• Lefelau goleuo eithaf da. Gall gwresogi fod yn annibynnol, a gall gael ei reoli'n awtomatig neu gan thermostat
3 Seren	• Goleuadau wedi'u lleoli'n dda ac yn rhoi digon o olau • Lefelau gwresogi effeithiol yn darparu tymheredd cyffredinol cytbwys • System wresogi wedi'i gosod yn gywir ac sy'n cael ei rheoli gan thermostat
4 Seren	• Lefelau goleuo da iawn, lle defnyddir gwahanol fathau o oleuadau am resymau ymarferol, esthetig ac awyrgylch e.e. goleuadau halogen, lampau safonol neu oleuadau llun • System wresogi awtomatig wedi'i gosod yn gywir a all gael ei rheoli gan thermostat
5 Seren	• Gwahanol fathau o oleuadau sy'n rhoi golau da at bob diben ymarferol fel darllen bwydlenni ac ati • Gellir eu defnyddio i roi pwyslais ar fannau penodol • Ymdrech gadarnhaol wedi'i gwneud i sicrhau bod gwresogi'n diwallu anghenion y gwesteion. Ffynhonnell wrth gefn o wres ar gyfer tywydd oer iawn a ffaniau o bosibl mewn tywydd poeth

Gofod, Cysur a Rhwyddineb Defnyddio

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Ystafell o faint digonol, ond heb roi llawer o sylw i'r cynllun • Byrddau o faint digonol gyda digon o le o'u hamgylch • Hwyrach bod rhywfaint o sŵn i'w glywed
2 Seren	• Bydd angen i'r ystafell fod yn fwy, gyda llawer mwy o le o amgylch byrddau a dodrefn eraill. Gallai ystafelloedd fod yn llai, ond mae cynllunio gofalus yn golygu y gellir defnyddio mwy o'r gofod sydd ar gael
3 Seren	• Cynllun da a digon o le o amgylch byrddau fel y gall staff a chwsmeriaid symud yn gymharol ddidrafferth • Byrddau a chaderiau o uchder priodol. Cadeiriau ymarferol a chyfforddus
4 Seren	• Dodrefn wedi'i osod yn dda i wneud y defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael
5 Seren	• Ystafell fawr wedi'i chynllunio'n dda gyda dodrefn mewn mannau addas a chyfleus • Lefel uchel o gysur, cadeiriau cyfforddus â digon o le rhyngddynt a byrddau mawr

Asesiadau Ansawdd Dros Nos

Yn ogystal, pan fo darparwr llety wedi dewis ymweliad dros nos, caiff yr agweddau canlynol eu hasesu hefyd a darperir adborth ar y meysydd hyn, ond ni fyddant yn rhan o'r dyfarniad cyffredinol ar gyfer y radd seren.

Gweithdrefnau Archebu Lle a Phrisiau

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Nodi manylion sylfaenol am y gwestai
2 Seren	• Cofnodi archebion mewn ffordd gymwys
3 Seren	• Dull trefnus o drin archebion, gohebiaeth, cwynion ac ati • Cadarnhau'r archeb mewn rhyw ffordd • Parod i helpu gwesteion wrth iddynt gyrraedd
4 Seren	• Gweithdrefn archebu gymwys ac effeithlon, a chynnig cyfarwyddiadau • Cadarnhad trwy e-bost, neges destun neu lythyr • Dylai staff sôn am y mannau cyhoeddus neu dylid rhoi map o'r lleoliad i'r gwestai
5 Seren	• Archeb yn cael ei thrin mewn ffordd broffesiynol sy'n gwneud i'r gwestai deimlo'n gyfforddus ac sy'n rhoi hyder bod manylion wedi'u cofnodi'n gywir • Anfon llythyr cadarnhau a chyfarwyddiadau drwy'r post, ffacs neu e-bost • Gwesteion yn cael eu tywys i'w hystafelloedd a chynnig cymorth gyda bagiau. Esbonio cyfleusterau'r llety a'r ystafell wely • Defnydd priodol o enw gwestai • Cynnig lluniaeth wrth gyrraedd fel sy'n briodol

Lletygarwch a Chyfeillgarwch

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Dim llawer o ymgysylltu a ac ymwneud â gwesteion. Staff heb lawer o sgiliau rhyngweithio â ymwneud
2 Seren	• Trin pob gwestai'n brydlon ac mewn modd cwrtais a pharod i helpu
3 Seren	• Agwedd gadarnhaol a chyfeillgar gan staff a staff rheoli wedi gwisgo'n daclus • Argraff gyntaf ac olaf dda, gyda gwên groesawgar
4 Seren	• Gwasanaeth sy'n rhoi tipyn o sylw, mwy personol gyda lefelau da iawn o ofal cwsmeriaid fel defnyddio enw gwestai • Dull rhagweithiol o drin gwesteion, a gwneud ymdrech i ymwneud â nhw a chynnal sgwrs • Lle na ddarperir pryd nos, rhoddir cymorth, ar gais, i ddod o hyd i rywle i fwyta/yfed • Gwesteion yn teimlo'n gartrefol, gyda chroeso cynnes a siriol wrth iddynt gyrraedd
5 Seren	• Gwesteion yn cael eu cyfarch yn bersonol wrth gyrraedd • Ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o anghenion gwesteion, a dim byd yn ormod o drafferth • Lle na ddarperir pryd nos, darperir bwydlenni a/neu wybodaeth fanwl am fwytai lleol • Cynnig gwasanaethau ychwanegol fel llaeth ffres, cael defnyddio'r ffôn, gwybodaeth am yr ardal ac argymhellion ar gyfer llefydd i fwyta ac ati • Argraff gyntaf ac olaf wych

Gwasanaeth Brecwast

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Sgiliau cymdeithasol a gwasanaeth digonol • Byrddau wedi'u gosod yn briodol neu gyllyll a ffyrc o fewn cyrraedd
2 Seren	• Gwasanaeth cymwys gydag agwedd parod i helpu
3 Seren	• Eitemau'r bwffe'n cael eu hail-lenwi'n rheolaidd • Dim gormod o oedi
4 Seren	• Gwasanaeth sy'n rhoi sylw mwy manwl fel clirio byrddau'n brydlon
5 Seren	• Staff gyda sgiliau gwasanaeth gwych ac agwedd ragweithiol • Gwasanaeth effeithlon heb giw a phlatiau ac ati'n cael eu clirio'n brydlon • Lle bo diodydd poeth neu dost yn cael eu gweini wrth y bwrdd, dylid cynnig gwasanaeth cyflym a gwirio boddhad y gwesteion • Disgrifiadau clir o brydau sydd ar gael a phrisiau

Brecwast – Ansawdd a Chyflwyniad

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Bwydlen sefydlog o bosibl gydag, er enghraifft, sudd, grawnfwyd, cig moch ac wy, tost, coffi a the. Cyfandirol yn unig efallai • Bwyd poeth wedi'i goginio'n gywir a'i gyflwyno'n dda • Gofal wedi'i gymryd i sicrhau bod sudd yn oer, bod tost yn grimp a bod te a choffi yn ffres
2 Seren	• Bwyd yn cael ei weini ar y tymheredd cywir, ar blât poeth neu oer fel sy'n briodol • Dewis cyfyngedig ar gael • Bwyd wedi'i baratoi gyda lefel eithaf da o ofal
3 Seren	• Dewis o eitemau o ansawdd da ar gael e.e ffrwythau, dewis o rawnfwydydd, selsig, tomato, tost gwyn neu frown a detholiad o jamiau • Bwffe deniadol (os darperir) • Eitemau wedi'u coginio'n ffres ac yn cael eu gweini ar y tymheredd cywir • Sylw arbennig yn cael ei roi i ansawdd y bwyd yn hytrach na dewis eang
4 Seren	• Mwy o ddewis o eitemau ar gael, o bosibl yn cynnwys 'prydau arbennig'. Wyau'n cael eu coginio ar gais • Defnydd amlwg o gynhwysion ffres wedi'u coginio a'u cyflwyno gyda llawer o ofal a manylder
5 Seren	• Cynhwysion ffres o safon uchel ac amrywiaeth eang o eitemau e.e. sudd ffrwythau, coffi ffres, dewis o de, cawsiau a chigoedd oer ac eitemau pobi o safon uchel • Defnydd da o gynnyrch cartref ffres a lleol a bwydydd rhanbarthol arbenigol lle'n briodol

Gwasanaeth Swper/Pryd Nos

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Sgiliau cymdeithasol a gwasanaeth digonol • Byrddau wedi'u gosod yn briodol ar gyfer swper/pryd nos neu gyllyll a ffyrc o fewn cyrraedd
2 Seren	• Gwasanaeth cymwys gydag agwedd parod i helpu • Gwybodaeth resymol am fwyd a diod
3 Seren	• Lle bo pryd nos yn cael ei weini, esboniad ysgrifenedig neu ar lafar o'r prydau sydd ar gael • Eitemau'r bwffe'n cael eu hail-lenwi'n rheolaidd • Gwybodaeth dda am fwyd a diod • Gwasanaeth wedi'i amseru'n dda
4 Seren	• Safon uchel o wybodaeth am fwyd a diod • Gwasanaeth sy'n rhoi sylw mwy manwl fel clirio byrddau'n brydlon a gwirio boddhad y gwesteion
5 Seren	• Staff gyda lefelau sgil uwch ac agwedd ragweithiol at ddarparu gwasanaeth effeithlon • Disgrifiadau cynhwysfawr o brydau sydd ar gael ac, yn achos gwasanaeth bwrdd, gallu amseru gweini'r gwahanol gyrsiau yn dda • Staff yn gallu rhoi cyngor i westeion ynglŷn â'r fwydlen a'r rhestr win (lle darperir)

Swper (lle darperir) – Ansawdd a Chyflwyniad

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Bwydlen sefydlog o bosibl ond gyda bwydlen amgen ar gael ar gais • Dim llawer o arnais nac addurn. Bwffe a phryd cig wedi'i gerfio wedi'u cyflwyno'n syml • Dewis llysieuol ar gael
2 Seren	• Bwyd yn cael ei weini ar y tymheredd cywir, ar blât poeth neu oer fel sy'n briodol • Dewis cyfyngedig ar gael • Prydau'n cael eu paratoi gyda thipyn o ofal
3 Seren	• Bwyd ffres sy'n cael ei gyflwyno'n dda a'i goginio o gynhwysion o ansawdd. Tystiolaeth o ddefnyddio rhai cynhwysion ffres • Sylw arbennig i ansawdd y bwyd yn hytrach na dewis eang
4 Seren	• Defnydd amlwg o gynhwysion ffres wedi'u coginio gyda llawer o ofal a sylw i fanylder
5 Seren	• Coginio gwych gyda phwyslais ar gynhwysion ffres, tymhorol a lleol wedi'u coginio'n fedrus • Pwyslais cryf ar ansawdd bwyd cyson • Gofal amlwg a sylw i fanylder ac ymddangosiad deniadol, gan wneud i'r bwyd edrych yn ddymunol dros ben • Ystod fwy eang o ddewisiadau deietegol ar gael

Trefn y Bwrdd

Dangosyddion Ansawdd Gradd Seren	
1 Seren	• Trefn y bwrdd o safon dderbyniol e.e. ysgafn, dur gwrthstaen a napcynnau papur un plyg • Bwydlenni, lle darperir, wedi'u hysgrifennu â llaw o bosibl ar gerdyn neu fwrdd du, ond yn lân ac yn rhoi gwybodaeth sylfaenol
2 Seren	• Llestri a chyllyll a ffyrc yn cyfateb ar y cyfan a napcyn o ansawdd gwell. Eitemau brecwast sylfaenol fel llaeth a siwgr ar gael ar y bwrdd ac yn ddigonol ar gyfer y niferoedd wrth y bwrdd • Cynwysyddion pupur a halen llawn ar fyrddau ar gyfer pob pryd
3 Seren	• Byrddau wedi'u gosod yn dda gyda llestri a chyllyll a ffyrc sy'n cyfateb • Napcynnau papur o ansawdd da • Bwydlenni, lle darperir, yn lân ac wedi'u cyflwyno'n dda
4 Seren	• Llestri a chyllyll a ffyrc o ansawdd da iawn. Napcynnau lliain neu bapur o ansawdd uchel a matiau bwrdd neu liain bwrdd • Blodau neu addurniadau priodol eraill ar fyrddau
5 Seren	• Trefn y bwrdd o'r safon uchaf, ategolion a gwydrau o ansawdd gwych • Bwydlenni deniadol gyda chynllun clir, llawn gwybodaeth a disgrifiadau defnyddiol

Côd Ymddygiad ac Amodau Cymryd Rhan

CÔD YMDDYGIAD

Mae'n ofynnol i'r perchennog/rheolwyr dderbyn y Côd Ymddygiad isod a chadw ato:

- Cadw safonau o ran gofal am westeion, glendid, a gwasanaeth sy'n briodol i'r math o sefydliad;
- Disgrifio'n gywir mewn unrhyw hysbyseb, taflen wybodaeth neu gyfrwng printiedig neu electronig arall, y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir;
- Egluro i ymwelwyr beth yn union sydd wedi ei gynnwys yn yr holl brisiau a roddir am lety, gan gynnwys trethi, ac unrhyw ffioedd ychwanegol eraill. Dylid hefyd egluro'r ffioedd am wasanaethau/cyfleusterau ychwanegol;
- Rhoi datganiad clir ar y polisi ar ganslo archebion i westeion ar adeg archebu, h.y. dros y ffôn, drwy ffacs, e-bost yn ogystal â gwybodaeth brintiedig a roddir;
- Cadw at y prisiau a gynigiwyd ar adeg archebu am lety a gwasanaethau eraill a pheidio â'u codi'n uwch;
- Rhoi gwybod i westeion ar adeg archebu, ac ar ôl hynny os bydd unrhyw newid, os yw'r llety a gynigir mewn anecs ar wahân neu adeilad tebyg a dangos lleoliad llety o'r fath ac unrhyw wahaniaeth o ran cyfforddusrwydd a/neu amwynderau rhyngddo a'r llety yn y sefydliad;
- Rhoi i bob ymwelydd ar ei gais fanylion taliadau sy'n ddyledus a derbynneb, os gofynnir am un;
- Delio'n brydlon ac yn gwrtais â'r holl ymholiadau, ceisiadau, archebion a gohebiaeth gan ymwelwyr;
- Sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i drafod cwynion ac yr ymchwilir yn brydlon ac yn gwrtais i gwynion a geir ac y rhoddir gwybod i'r ymwelydd am y canlyniad;
- Rhoi ystyriaeth ddyladwy i anghenion ymwelwyr sydd ag anableddau ac ymwelwyr sydd ag anghenion arbennig, a gwneud darpariaeth addas lle mae hynny'n gymwys;
- Darparu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus neu drefniant tebyg a chydymffurfio â'r holl ofynion statudol o ran cynllunio a diogelwch a'r holl ofynion statudol eraill;
- Caniatáu mynediad rhesymol i un o gynrychiolwyr Croeso Cymru i'r sefydliad ar ei gais i gadarnhau bod y Côd Ymddygiad yn cael ei ddilyn.

AMODAU AR GYMRYD RHAN

Mae'n ofynnol i'r holl sefydliadau sy'n cymryd rhan yng nghynlluniau graddio Croeso Cymru wneud y canlynol:

- Bodloni isafswm gofynion mynediad Croeso Cymru ar gyfer graddio yn y sector llety perthnasol neu ragori arno;
- Cadw at Gôd Ymddygiad Croeso Cymru;
- Cael asesiad bob blwyddyn ac os ceir cwynion gan gynrychiolydd sydd wedi ei awdurdodi gan Croeso Cymru;
- Talu ffi arolygu flynyddol;
- Darparu Datganiad Mynediad i'r Anabl.

Newid Perchnogaeth

Pan gaiff sefydliad ei werthu, ni ellir trosglwyddo'r radd bresennol i'r perchennog newydd. Mae'n ofynnol i'r perchennog newydd wneud cais i gymryd rhan yng nghynllun graddio seren Croeso Cymru.

Arwyddion

Os bydd sefydliad, am ba bynnag reswm, yn rhoi'r gorau i gymryd rhan yng nghynllun graddio Croeso Cymru, rhaid tynnu'r holl arwyddion arddangos a deunydd printiedig perthnasol ar unwaith.

Dylai'r holl raddau Sêr gael eu defnyddio bob amser ar y cyd â logo perthnasol Croeso Cymru.

Bydd unrhyw restriad yng nghyhoeddiadau/ar wefan Croeso Cymru ac o fewn rhwydwaith y Canolfannau Croeso yn amodol ar gymryd rhan yn barhaus yng nghynllun arolygu a graddio Croeso Cymru.

Byddai methu ufuddhau i'r amodau hyn yn gallu arwain at wneud y sefydliad yn anghymwys i ddangos neu ddefnyddio cymeradwyaeth Croeso Cymru ar unrhyw ffurf.

BETH I'W WNEUD OS NAD YDYCH YN CYTUNO Â'R RADD SÊR A RODDWYD

Os ydych yn teimlo bod gennych le i anghytuno ar y radd Sêr a roddwyd i'ch eiddo, neu os ydych yn anghytuno â rhai agweddau ar adroddiad yr Asesydd Ansawdd, byddwch cystal â chysylltu â ni cyn pen 21 o ddiwrnodau wedi ichi gael yr adroddiad ysgrifenedig. Gallwch ffonio ein tîm yn Aberystwyth ar 0300 062 2000 neu anfon neges e-bost atom yn quality.tourism@wales.gsi.gov.uk a byddwn yn ceisio ateb eich pryderon.
Fel arall, efallai y byddwch am ysgrifennu atom yn:

Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhodfa Padarn
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3UR.

www.cymru.gov.uk/twristiaeth

MANYLION CYSWLLT

Os hoffech wneud cais am ymweliad ar gyfer gradd Seren neu drafod unrhyw fater perthnasol sy'n codi o gynnwys y canllaw hwn, cysylltwch â ni yn:

Adran Sicrhau Ansawdd
Croeso Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhodfa Padarn
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3UR

Ffôn: 0300 062 2000
E-bost: quality.tourism@wales.gsi.gov.uk

Gallwch hefyd gael ffurflen gais am raddio, manylion ffioedd a fersiwn electronig o'r canllaw hwn drwy fynd i'n gwefan www.cymru.gov.uk/twristiaeth a chlicio ar "Graddio".

Visit Wales
Croeso Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government